ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-14:

## Arolwg Defnydd Iaith



I gael rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth hon cysylltwch â:

Glyn Jones
Prif Ystadegydd
Gwasanaethau
Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6691
E-bost: Glyn.Jones@cymru.gsi.gov.uk

Dyfan Sion
Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil
Comisiynydd y Gymraeg
Uned 7
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH
Ffôn: 0845 6033221
E-bost: Dyfan.Sion@cyg-wlc.org

I gael gwybodaeth dechnegol am sut y cynhaliwyd yr arolwg, cysylltwch â:

Lisa Walters
Arolwg Cenedlaethol Cymru
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6685
E-bost: Lisa.Walters@cymru.gsi.gov.uk

SDR 12/2015
ISBN: 978-1-4734-2961-1
WG23428
F 1.0

Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, 29 Ionawr 2015

© Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Mae’r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Cynnwys


Crynodeb gweithredol ..... 2
1 Cefndir ..... 2
2 Beth yw diben yr arolwg hwn? ..... 2
3 Crynodeb o'r canlyniadau ..... 3

Y prif adroddiad ..... 13
4 Rhagarweiniad ..... 13
5 Diben yr arolwg hwn ..... 15
6 Diben yr adroddiad hwn ..... 16
7 Sut y cynhaliwyd yr arolwg? ..... 17
8 Faint o bobl yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg? ..... 18
9 Pa mor dda y gall pobl siarad Cymraeg? ..... 23
10 Pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith? ..... 27
11 Ble y dysgodd siaradwyr Cymraeg i siarad yr iaith? ..... 31
12 Iaith y cartref yn ystod plentyndod ..... 32
13 Pa mor dda y gall siaradwyr Cymraeg ysgrifennu Cymraeg? ..... 35
14 Ym mha sefyllfaoedd y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith? ..... 37
15 Negeseuon testun, e-bost, a defnyddio cyfryngau cymdeithasol ..... 41
16 Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ..... 43
17 Iaith addysg ..... 47
18 Delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg ..... 53
19 Pa iaith y mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio? ..... 56
20 Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ..... 57

Atodiad - Gwybodaeth allweddol am ansawdd ..... 67
Holiaduron ..... 72

## Crynodeb Gweithredol

## 1 Cefndir

1.1 Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-2015 yn barhad o ymchwil a wnaed yn wreiddiol ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2004 a 2006 i'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Ailgomisiynwyd yr arolwg yn 2013, gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr arolwg yn para am ddwy flynedd, o 2013 hyd 2015. Mae'r adroddiad hwn yn darparu canlyniadau o flwyddyn gyntaf yr arolwg (2013-14).

1.2 Gwnaeth yr Arolwg Defnydd Iaith geisio gwybodaeth gan oedolion a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg er mwyn gweld pa mor dda y gallant siarad yr iaith, pa mor aml, ble, pryd, ac â phwy y maent yn ei defnyddio.

1.3 Arolwg Cenedlaethol Cymru, arolwg wyneb-yn-wyneb hap-debygolrwydd ar raddfa fawr, a ddarparodd fframwaith y sampl ar gyfer yr arolwg hwn. Gofynnwyd i'r rheini a oedd yn cymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol nodi pob aelod yn eu haelwyd sy'n gallu siarad Cymraeg. Cafodd pob siaradwr Cymraeg holiadur yr Arolwg Defnydd Iaith i'w lenwi eu hunain a'i ddychwelyd drwy'r post.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau Arolwg Defnydd Iaith 2013-14 ac yn cynnwys rhai cymariaethau, lle'n bosibl, ag Arolygon Defnydd Iaith 2004-06. Ar ôl cwblhau ail flwyddyn yr arolwg, bydd y sampl fwy o faint yn fodd i ni gynnal dadansoddiadau pellach. Disgwylir i'r ail adroddiad gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2015.

## 2 Beth yw diben yr arolwg hwn?

2.1 Mae'r Cyfrifiad, yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn darparu ychydig o wybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, a cheir rhai enghreifftiau o arolygon ar raddfa fach sy'n holi am y defnydd o'r iaith. Fodd bynnag, ers Arolygon Defnydd Iaith 2004-06, ni chasglwyd unrhyw wybodaeth gynhwysfawr ar raddfa fawr am allu pobl i siarad Cymraeg a'r defnydd a wneir o'r iaith mewn aelwydydd a chymunedau yng Nghymru.

2.2 Ni fwriedir i'r arolwg hwn ddarparu data newydd ar nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg. Cyfrifiad 2011 yw'r brif ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am hyn o hyd. Fodd bynnag, bydd yr arolwg hwn yn darparu rhagor o wybodaeth am y defnydd a wneir o'r iaith gan siaradwyr Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.

2.3 Mae Strategaeth y Gymraeg 2012-17 Llywodraeth Cymru, *Iaith fyw: iaith byw*, yn amlinellu dyhead Llywodraeth Cymru i weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd. Mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru i'w helpu i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nod hwn, ac yn nodi meysydd lle y mae angen cryfhau polisi a'i ddatblygu ymhellach.

2.4 Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, corff annibynnol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Cynllun Strategol y Comisiynydd 2013-15 yn nodi pum amcan strategol. Un ohonynt yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Bydd canlyniadau'r Arolwg Defnydd Iaith yn darparu tystiolaeth bwysig i'r Comisiynydd ar y defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd gan sicrhau bod gan lunwyr polisi yr wybodaeth ystadegol ddiweddaraf a dealltwriaeth o sefyllfa bresennol yr iaith.

## 3 Crynodeb o'r canlyniadau

### **Faint o bobl yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg?**

3.1 Y Cyfrifiad Poblogaeth yw'r ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am y tueddiadau yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Yn 2011, roedd 19.0 y cant (562,000) o'r rheini sy'n 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg.

3.2 Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013-14, mae 23 y cant (673,700) o'r rheini sy'n 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn uwch na'r Cyfrifiad, ond yn is na'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol ac Arolwg Cenedlaethol Cymru, sy'n nodi bod 27 y cant (787,500) a 24 y cant (723,300) yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn dangos yr anghysondebau a'r anawsterau a geir wrth ddefnyddio gwahanol ddulliau o gasglu gwybodaeth sy'n dibynnu'n fawr ar asesiad goddrychol pobl o'u gallu ieithyddol. Disgrifir y gwahanol ffynonellau yn fanylach yn y prif adroddiad.

## Pa mor dda y gall pobl siarad Cymraeg?

3.3 Yn gyffredinol, mae’r arolwg yn dangos bod canran a nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl wedi gostwng ychydig (ond nid i raddau arwyddocaol yn ystadegol) ers yr arolwg blaenorol. Fodd bynnag, mae cyfran uwch o'r boblogaeth bellach yn ystyried eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ond ddim yn rhugl.

3.4 Dengys yr arolwg fod 11 y cant (310,600) o'r rheini sy'n 3 oed a throsodd ac yn byw yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl; mae hyn yn cymharu â 12 y cant (317,300) yn 2004-06.

3.5 Mae’r ganran fwyaf o’r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl ymhlith plant a phobl ifanc 3 i 15 oed, gyda 15 y cant o'r grŵp oedran hwn yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl.

3.6 Ar gyfer pob grŵp oedran, gwelwyd cynnydd bach yn y ganran sy'n nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ond nid yn rhugl. O'r boblogaeth yn gyffredinol, mae 13 y cant yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ond nid yn rhugl. Mae hyn yn cymharu â 9 y cant yn arolygon 2004-06.

3.7 Mae bron i hanner (46 y cant) o'r holl siaradwyr Cymraeg (310,600) yn ystyried eu bod yn rhugl, a 22 y cant (148,900) yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg. Yn 2004-06, roedd 58 y cant (317,300) yn rhugl ac 21 y cant (115,300) yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg.

3.8 Mae canran y siaradwyr Cymraeg oedd yn ystyried eu hunain yn rhugl yn is na'r ganran yn yr arolwg blaenorol, gan fod mwy o bobl wedi nodi eu bod yn gallu siarad ychydig o Gymraeg neu ychydig eiriau yn unig (31 y cant o'i gymharu â 20 y cant yn 2004-06).

## Pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg?

3.9 Mae 13 y cant (353,000) o'r rheini sy'n 3 oed neu'n hŷn yn siarad Cymraeg bob dydd; mae hyn yn cymharu â 13 y cant (342,000) yn arolygon 2004-06.

3.10 Mae ychydig dros hanner y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn siarad yr iaith bob dydd; 1 ym mhob 5 yn siarad yr iaith bob wythnos; llai na 1 ym mhob 4 yn siarad yr iaith yn llai aml na phob wythnos; mae yna 1 ym mhob 20 sy'n gallu siarad Cymraeg nad ydynt byth yn siarad yr iaith.

3.11 Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad yr iaith yn fwy aml na siaradwyr nad ydynt yn rhugl. Dywedodd 84 y cant (261,000) o siaradwyr Cymraeg rhugl eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, o'i gymharu ag 87 y cant (276,000) yn 2004-06.

3.12 Mae pa mor aml y mae pobl yn defnyddio'r Gymraeg yn amrywio yn ôl oed. Mae 58 y cant o siaradwyr Cymraeg 3-15 oed yn siarad Cymraeg bob dydd er mai ond 35 y cant sy'n yn rhugl..

## Ble y dysgodd siaradwyr Cymraeg i siarad yr iaith?

3.13 Bu i 45 y cant o siaradwyr Cymraeg ddysgu i siarad yr iaith gartref, bu i 12 y cant ddysgu yn yr ysgol feithrin, 24 y cant yn yr ysgol gynradd a 14 y cant yn yr ysgol uwchradd.

3.14 Mae'r ganran a ddysgodd siarad Cymraeg gartref yn amrywio'n fawr yn ôl oedran, gyda 21 y cant o bobl ifanc 3-15 oed ac 82 y cant o bobl 65 oed a throsodd wedi dysgu'r iaith gartref.

3.15 Mae 73 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl wedi dysgu siarad Cymraeg gartref, o'i gymharu ag 18 y cant o'r rheini nad ydynt yn rhugl.

## Iaith y cartref yn ystod plentyndod

3.16 Nid oes gwahaniaeth mawr rhwng y dylanwad y mae rhuglder y tad yn ei gael ar allu'r plentyn o'i gymharu â rhuglder y fam.

3.17 Mae 90 y cant o'r siaradwyr Cymraeg sydd â'r ddau riant yn siarad Cymraeg yn rhugl yn ystyried eu bod nhw'u hunain hefyd yn rhugl. Mae tri chwarter (77 y cant) o'r rheini sydd ag un rhiant yn rhugl yn ystyried eu bod nhw'n rhugl. Fodd bynnag, dim ond 19 y cant o'r siaradwyr Cymraeg hynny nad oedd eu mam na'u tad yn rhugl a ddywedodd eu bod yn rhugl eu hunain. O'r rheini nad oedd eu rhieni'n gallu siarad Cymraeg o gwbl, roedd 16 y cant yn rhugl.

3.18 Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg sydd â rhiant sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn cynyddu'n raddol gydag oedran. Mae gan 18 y cant o bobl ifanc 3-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg dad sy'n rhugl ac mae gan 22 y cant fam sy'n rhugl, o'i gymharu â 73 y cant a 72 y cant o bobl 65 oed a throsodd.

## Pa mor dda y gall siaradwyr Cymraeg ysgrifennu Cymraeg?

3.19 Mae'r arolwg hwn yn amcangyfrif bod 457,000 o oedolion 16 oed a throsodd yn gallu ysgrifennu Cymraeg (yr amcangyfrif yng Nghyfrifiad 2011 oedd 321,231 o oedolion).

3.20 O'r oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg, dywedodd 28 y cant eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn, a 29 y cant yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda. Dywedodd 35 y cant eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg, ond ddim yn dda. Yn 2004-06, dywedodd 66 y cant (257,000) o oedolion sy’n siarad Cymraeg eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda neu'n dda iawn (o'i gymharu â 57 y cant, 281,000, yn arolwg 2013-14).

## Ym mha sefyllfaoedd y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith?

3.21 Mae 20 y cant o’r siaradwyr Cymraeg bob amser (neu bron bob amser) yn siarad Cymraeg gartref. Mae’r ganran yma yn cynyddu'n raddol gydag oedran, o 9 y cant o bobl ifanc 3-15 oed i 38 y cant o bobl 65 oed a throsodd.

3.22 Mae 61 y cant o bobl ifanc 3-15 oed sy'n rhugl yn y Gymraeg bob amser yn siarad Cymraeg yn yr ysgol. Fodd bynnag, dim ond 22 y cant o'r grŵp hwn sydd bob amser yn siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau.

3.23 Dywedodd 31 y cant o siaradwyr Cymraeg mai yn Gymraeg oedd eu sgwrs fwyaf diweddar gyda rhywun nad oedd yn perthyn i'w teulu.

3.24 Dywedodd mwy na hanner (56 y cant) y siaradwyr Cymraeg rhugl mai yn Gymraeg oedd eu sgwrs fwyaf diweddar.

## Negeseuon testun, e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol

3.25 Mae 13 y cant o siaradwyr Cymraeg (sy’n anfon negeseuon testun) yn anfon negeseuon testun at ffrind yn Gymraeg bob amser neu’n bennaf. Mae 10 y cant (o’r rhai sy’n ebostio) yn anfon e-bost at ffrind yn Gymraeg bob amser neu’n bennaf. Mae 9 y cant o oedolion (sy’n defnyddio Facebook) yn ysgrifennu yn Gymraeg bob amser neu’n bennaf ar Facebook a 6 y cant (o’r rheini sy’n defnyddio Twitter) yn ysgrifennu yn Gymraeg bob amser neu’n bennaf ar Twitter.

3.26 Mae’r gyfran o bobl nad ydynt yn rhugl sy’n anfon negeseuon testun, e-bostio neu’n defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg bob amser neu’n bennaf yn fach iawn.

## Defnyddio’r Gymraeg yn y gymuned

3.27 Mae 43 y cant o oedolion sy'n siarad Cymraeg wedi bod i weithgaredd neu ddigwyddiad diwylliannol yn y flwyddyn flaenorol a gynhaliwyd yn Gymraeg ac 18 y cant wedi bod i ddigwyddiad chwaraeon a gynhaliwyd yn Gymraeg.

3.28 Mae'r ganran sydd wedi bod i ddigwyddiad diwylliannol a gynhaliwyd yn Gymraeg yn cynyddu ychydig gydag oedran, a'r ganran sydd wedi bod i ddigwyddiad chwaraeon a gynhaliwyd yn Gymraeg yn gostwng ychydig gydag oedran.

3.29 Yn y flwyddyn flaenorol, mae 38 y cant o bobl ifanc sy’n gallu siarad Cymraeg wedi bod i ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol a gynhaliwyd yn Gymraeg na threfnwyd gan ysgol, a 24 y cant wedi bod i ddigwyddiad chwaraeon o'r fath. Roedd 47 y cant wedi bod i ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol a gynhaliwyd yn Gymraeg a drefnwyd gan ysgol (ond y tu allan i oriau ysgol), a 29 y cant wedi bod i ddigwyddiad chwaraeon o'r fath.

## Iaith addysg

3.30 Aeth 44 y cant o oedolion sy’n gallu siarad Cymraeg i ysgol feithrin lle'r oedd y Gymraeg yn brif iaith neu'r unig iaith a siaradwyd yno. Aeth 47 y cant i ysgol gynradd a 33 y cant i ysgol uwchradd lle'r oedd y Gymraeg yn brif iaith neu'r unig iaith a siaradwyd yno.

3.31 Aeth cyfran fwy o oedolion o dan 45 oed na phobl 45 oed a throsodd i ysgol feithrin, ysgol gynradd neu ysgol uwchradd lle'r oedd y Gymraeg yn brif iaith neu'r unig iaith a siaradwyd yno.

3.32 Cafodd cyfran lawer yn uwch o oedolion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl addysg feithrin, gynradd neu uwchradd yn Gymraeg yn unig neu'n bennaf, nag oedolion nad ydynt yn rhugl. Hefyd, mae oedolion iau, boed yn rhugl ai peidio, yn fwy tebygol o fod wedi cael addysg yn Gymraeg yn unig neu'n bennaf nag oedolion hŷn.

3.33 Mae 86 y cant o siaradwyr Cymraeg a fynychodd ysgol uwchradd lle mai’r Gymraeg (yn unig neu’n bennaf) oedd iaith yr addysg yn dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg. Mae hyn o’i gymharu â 33 y cant o’r rheini a fynychodd ysgol uwchradd lle'r oedd yr addysg yn Saesneg (yn unig neu’n bennaf) neu lle’r oedd y ddwy iaith yn weddol gyfartal.

3.34 Mae cyfran y plant uwchradd sy'n rhugl ac yn cael eu haddysgu bob amser neu'n bennaf yn Gymraeg yn amrywio o 76 y cant ar gyfer Gwyddoniaeth i 90 y cant ar gyfer Daearyddiaeth, ac o 91 y cant ar gyfer Hanes i 97 y cant ar gyfer Cymraeg.

3.35 Dangosodd Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 fod 95 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn astudio Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg (bob amser neu'n bennaf). Roedd 68 y cant a 65 y cant, yn ôl eu trefn, yn astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg (bob amser neu'n bennaf).

3.36 Ychydig iawn (llai na 13 y cant) o'r plant nad ydynt yn rhugl sy'n astudio unrhyw bynciau yn Gymraeg (bob amser neu'n bennaf) ar wahân i'r Gymraeg fel pwnc. Mae 59 y cant o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn astudio Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg; mae hyn yn cymharu â 56 y cant yn ôl arolygon 2004-06.

3.37 Nododd 79 y cant o bobl ifanc 11 i 15 oed sydd yn astudio Mathemateg, Gwyddoniaeth a Chymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg eu bod yn rhugl yn yr iaith.

## Delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg

3.38 Mae 51 y cant o siaradwyr Cymraeg yn ceisio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus, a 37 y cant yn ceisio defnyddio'r Gymraeg i lenwi ffurflenni swyddogol.

3.39 O’r bobl sydd yn ceisio defnyddio’r Gymraeg, mae 22 y cant yn llwyddiannus bob tro, mae 31 y cant yn llwyddiannus fel arfer ac mae 42 y cant yn llwyddiannus weithiau wrth ddefnyddio’r Gymraeg i ddelio â sefydliad cyhoeddus. O ran llenwi ffurflenni swyddogol, mae 17 y cant yn llwyddiannus bob amser, mae 36 y cant yn llwyddiannus fel arfer ac mae 45 y cant yn llwyddiannus weithiau.

3.40 Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o lawer o geisio, a llwyddo, i ddefnyddio’r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus neu lenwi ffurflenni swyddogol na'r rheini nad ydynt yn rhugl.

3.41 Gwnaeth 28 y cant lenwi'r Arolwg Defnydd Iaith hwn yn Gymraeg. O'r rheini sydd bob amser neu bron bob amser yn ceisio defnyddio'r Gymraeg i lenwi ffurflenni swyddogol, 79 y cant a wnaeth lenwi'r arolwg hwn yn Gymraeg.

## Pa iaith y mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio?

3.42 Mae ychydig o dan chwarter y siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, mae hanner yn fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Saesneg, a chwarter yr un mor gartrefol yn defnyddio'r ddwy iaith.

3.43 Mae'r tueddiad i fod fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg yn hytrach na’r Saesneg yn cynyddu gydag oedran.

3.44 O'r rheini a nododd eu bod yn fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, llenwodd 64 y cant yr arolwg hwn yn Gymraeg.

## Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith

3.45 Mae tua thraean o'r siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn siarad Cymraeg bob amser (neu fel arfer) â chydweithwyr, mae traean weithiau'n siarad Cymraeg â chydweithwyr, ac mae yna draean nad ydynt byth yn siarad Cymraeg â chydweithwyr.

3.46 Mae chwarter bob amser (neu fel arfer) yn siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'r cwmni/sefydliad, a thraean byth yn siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'r cwmni/sefydliad.

3.47 Mae tua hanner y siaradwyr Cymraeg yn ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith. Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o lawer o ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith na'r rheini nad ydynt yn rhugl.

3.48 Mae gweithwyr yn y sector cyhoeddus ddwywaith yn fwy tebygol o ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith na gweithwyr yn y sector preifat.


3.49 Mae 1 ym mhob 5 wedi cael rhywbeth i'w wisgo yn y gwaith, fel bathodyn, i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg.


3.50 O'r rheini sydd â disgrifiad swydd, mae sgiliau yn y Gymraeg wedi cael eu nodi'n hanfodol ar gyfer 15 y cant ohonynt ac yn ddymunol ar gyfer 27 y cant ohonynt. Nid yw sgiliau yn y Gymraeg wedi'u nodi o gwbl yn nisgrifiad swydd 57 y cant o'r rheini sydd â disgrifiad swydd.

3.51 Mae 49 y cant yn dweud bod eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau ar y busnes, yn ffurfiol ac yn anffurfiol; 19 y cant yn dweud bod eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ond nid mewn materion busnes ffurfiol; a 6 y cant yn dweud nad yw eu cyflogwyr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg.

### Cymariaethau ag Arolygon Defnydd Iaith 2004-06


3.52 Mae'r diagramau canlynol yn dangos y gwahaniaethau rhwng nifer y bobl a roddodd ymatebion penodol i rai o'r cwestiynau yn Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 a 2013-14. Mae gwahaniaethau bach yn annhebygol o fod yn arwyddocaol (yn ystadegol a fel arall).



3.53 Mae'r diagram canlynol yn dangos y gwahaniaethau rhwng atebion pobl â gwahanol lefelau o ruglder i gwestiynau'r holiadur. Tywyllaf yw’r lliw, mwyaf y gyfran sydd yn y categori hwnnw. Dim ond amcan goddrychol bras yw hyn o'r gwahaniaethau rhwng atebion pobl â lefelau rhuglder gwahanol.

**Ffigur 1: Amcan goddrychol bras o'r ymatebion i gwestiynau'r arolwg yn ôl lefel rhuglder**




3.54 Mae'r diagram canlynol yn dangos y gwahaniaethau rhwng atebion grwpiau oedran gwahanol i gwestiynau'r holiadur. Unwaith eto, tywyllaf yw’r lliw, mwyaf y gyfran sydd yn y categori hwnnw.

**Ffigur 2: Amcan goddrychol bras o'r ymatebion i gwestiynau'r arolwg yn ôl oedran**

| | | 16-29 | 30-44 | 45-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|
| C2. | rhugl | | | | |
| C3. | wedi dysgu Cymraeg gartref | | | | |
| C4. | rhieni'n rhugl | | | | |
| C5. | bob amser yn siarad Cymraeg gartref | | | | |
| C6. | sgwrs fwyaf diweddar yn Gymraeg | | | | |
| C7. | yn siarad Cymraeg bob dydd | | | | |
| C8. | yn ysgrifennu Cymraeg yn dda | | | | |
| C9. | negeseuon testun, e-byst, cyfryngau cymdeithasol | | | | |
| C10. | addysg Gymraeg | | | | |
| C11. | defnyddio'r Gymraeg yn swyddogol | | | | |
| C12. | llwyddo i ddefnyddio'r Gymraeg | | | | |
| C13. | digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon | | | | |
| C14. | yn gartrefol yn defnyddio'r Gymraeg | | | | |
| C18. | yn siarad Cymraeg â chydweithwyr | | | | |
| C19. | wedi cael cynnig bathodyn 'Cymraeg' | | | | |
| C20. | sgiliau Cymraeg yn y disgrifiad swydd | | | | |
| C21. | cyflogwr yn gefnogol o'r Gymraeg | | | | |

Dadansoddiad goddrychol nad yw'n seiliedig ar arwyddocad ystadegol

# Y prif adroddiad

## 4 Rhagarweiniad

4.1 Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 yn barhad o ymchwil a wnaed yn wreiddiol ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2004 a 2006 i'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Dros gyfres o dri arolwg, ceisiodd y Bwrdd wybodaeth am bwy sy'n defnyddio'r Gymraeg, gyda phwy, pryd, a faint y maent yn defnyddio'r iaith. Ailgomisiynwyd yr arolwg yn 2013 gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr arolwg yn para am ddwy flynedd, o 2013 tan 2015. Mae'r adroddiad hwn yn darparu canlyniadau o flwyddyn gyntaf yr arolwg (2013-14).

4.2 Trefnwyd yr Arolygon Defnydd Iaith a gynhaliwyd gan IpsosMORI ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2004 a 2006 er mwyn ategu'r Arolwg Byw yng Nghymru, a reolwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Arolwg Byw yng Nghymru, arolwg wyneb-yn-wyneb ar raddfa fawr ymhlith tua 7,500 o aelwydydd bob blwyddyn, a ddarparodd fframwaith y sampl ar gyfer yr Arolwg Defnydd Iaith.

4.3 Cafodd pob siaradwr Cymraeg yn yr aelwydydd a ddewiswyd i gymryd rhan yn Arolwg Byw yng Nghymru holiadur i'w lenwi a'i ddychwelyd. Cafwyd sampl o 7,717 o siaradwyr Cymraeg drwy gynnal yr arolwg dros dair blynedd. Ceir rhagor o wybodaeth am arolygon 2004-06 a'r canlyniadau yn yr adroddiad ar Arolygon Defnydd Iaith 2004-06.

4.4 Roedd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn dymuno cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd o'r Gymraeg. Yn hytrach na chynnal arolwg ar wahân, ac er mwyn sicrhau ei fod yn gost effeithiol ac mor debyg â phosibl i arolygon blaenorol, penderfynwyd ei gynnwys fel elfen ychwanegol o Arolwg Cenedlaethol Cymru.

4.5 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg wyneb-yn-wyneb hap-debygolrwydd ar raddfa fawr ymhlith 14,500 o oedolion ar draws Cymru. Caiff ei gynnal gan TNS BMRB a Beaufort Research ar ran Llywodraeth Cymru ac mae'n un o'r prif ffyrdd o gael gwybodaeth fanwl am farn a lles pobl sy'n byw yng Nghymru. Cynhaliwyd yr

arolwg mwyaf diweddar rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014. Ceir rhagor o wybodaeth am yr Arolwg Cenedlaethol yn yr Atodiad.

4.6 Arolwg Cenedlaethol Cymru ddarparodd fframwaith y sampl ar gyfer yr arolwg hwn. Cafodd pob siaradwr Cymraeg yn yr aelwydydd a gymerodd ran yn Arolwg Cenedlaethol Cymru holiadur i'w lenwi eu hunain. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau arolwg 2013-14, sy'n seiliedig ar 3,848 o siaradwyr Cymraeg. Ar ôl cwblhau ail flwyddyn yr arolwg (2014-15), bydd gennym sampl fwy o faint o tua 7,500 o siaradwyr Cymraeg ac felly byddwn yn gallu cynnal dadansoddiad pellach. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2015.

4.7 Mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn ceisio gwybodaeth gan oedolion a phlant sy'n siarad Cymraeg er mwyn gweld pa mor dda y gallant siarad yr iaith, pa mor aml y maent yn ei defnyddio, ble, pryd, ac â phwy.

4.8 Datblygwyd yr holiaduron a ddefnyddiwyd ar gyfer arolygon 2013-15 ar y cyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau heb eu newid ers arolygon 2004-06. Fodd bynnag, cyflwynwyd rhai cwestiynau newydd, megis cwestiynau ynghylch y defnydd o'r Gymraeg ar gyfer anfon negeseuon testun, e bostio ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd dau fath o holiadur: un ar gyfer oedolion (16 oed a throsodd) ac un ar gyfer plant a phobl ifanc (3 i 15 oed). Cafodd yr holiadur i bobl ifanc ei lenwi gan y rhiant, neu gan y person ifanc os oedd dros 12 oed ac eisiau llenwi'r holiadur. Roedd modd llenwi'r holiaduron yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae copïau o'r ddau holiadur yn yr Atodiad.

4.9 Roedd maint y sampl ar gyfer yr Arolwg Defnydd Iaith 2013-14 yn ddigonol i gael data dibynadwy ar lefel Cymru gyfan ond nid ar gyfer ardaloedd daearyddol llai o faint (er enghraifft, nid oes data dibynadwy ar lefel awdurdod lleol ar hyn o bryd).

4.10 Roedd gan yr holiaduron ar gyfer oedolion a phobl ifanc gwestiynau ynghylch y canlynol:

- deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg;
- y gallu i siarad Cymraeg (o fod yn rhugl i allu dweud ychydig eiriau yn unig);
- ble y dysgwyd y Gymraeg;
- pa iaith a ddefnyddir mewn amryw o sefyllfaoedd bob dydd;

- pa mor aml y defnyddir y Gymraeg;
- pa iaith a ddefnyddir i anfon negeseuon digidol a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol;
- mynd i ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon a gynhaliwyd yn Gymraeg.

4.11 Roedd cwestiynau ychwanegol yn yr holiadur ar gyfer oedolion ynghylch:

- gallu rhieni i siarad  Cymraeg;
- ym mha iaith y cynhaliwyd y sgwrs fwyaf diweddar (y tu allan i'r teulu);
- y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg;
- iaith addysg ar gamau amrywiol;
- defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus;
- ai'r Gymraeg neu'r Saesneg y mae siaradwr yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio;
- cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac agwedd y cyflogwr at yr iaith.

4.12 Roedd cwestiynau ychwanegol yn yr holiadur ar gyfer pobl ifanc (3-15 oed) ar y canlynol:

- gallu aelodau o'r teulu i siarad Cymraeg;
- ym mha iaith y dysgir pynciau yn yr ysgol;
- ai'r person ifanc neu'r rhiant lenwodd yr holiadur.

## 5 Diben yr arolwg hwn

5.1 Mae'r Cyfrifiad, yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn darparu ychydig o wybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, a cheir rhai enghreifftiau o arolygon ar raddfa fach sy'n holi am y defnydd o'r iaith. Fodd bynnag, ni fu unrhyw ffynonellau gwybodaeth cynhwysfawr ar raddfa fawr eraill ers Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 am allu pobl i siarad Cymraeg a'r defnydd a wneir o'r iaith mewn aelwydydd a chymunedau yng Nghymru.

5.2 Dyluniwyd yr arolwg hwn i fod mor debyg â phosibl i arolygon 2004-06. Gwnaethpwyd hynny er mwyn i ni allu asesu sut mae defnydd siaradwyr Cymraeg o'r iaith wedi newid dros amser, a mesur p'un a yw mentrau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gweithio.

5.3 Mae Strategaeth y Gymraeg 2012-17 Llywodraeth Cymru, *Iaith fyw: iaith byw*, yn amlinellu dyhead Llywodraeth Cymru i weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd pob dydd. Mae'r

Arolwg Defnydd Iaith yn darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru i'w helpu i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nod hwn, ac yn nodi meysydd lle mae angen cryfhau polisi a'i ddatblygu ymhellach.

5.4 Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, corff annibynnol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Cynllun Strategol y Comisiynydd 2013-15 yn nodi pum amcan strategol. Un ohonynt yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Bydd canlyniadau'r Arolwg Defnydd Iaith yn darparu tystiolaeth bwysig i'r Comisiynydd ar y defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd gan sicrhau bod gan lunwyr polisi yr wybodaeth ystadegol ddiweddaraf a dealltwriaeth o sefyllfa bresennol yr iaith.

## 6 Diben yr adroddiad hwn

6.1 Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd yn canolbwyntio ar ddarparu'r canlyniadau allweddol o flwyddyn gyntaf yr Arolwg Defnydd Iaith (2013-14).

6.2 Gan fod yr adroddiad hwn ond yn darparu canlyniadau o flwyddyn gyntaf yr arolwg, mae'n seiliedig ar sampl o 3,848 o siaradwyr Cymraeg. Felly, bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y prif ganlyniadau, gan gymharu defnydd iaith yn ôl oedran a lefelau rhuglder a chymharu hefyd, lle'n bosibl, â chanlyniadau Arolygon Defnydd Iaith 2004-06. Pan fydd ail flwyddyn yr arolwg (2014-15) wedi'i chwblhau, bydd gennym sampl fwy o faint o siaradwyr Cymraeg a byddwn felly'n gallu cynnal dadansoddiad pellach, mwy manwl. Dylem hefyd fod yn gallu cyflwyno rhai canlyniadau ar lefel awdurdod lleol.

6.3 Ni fwriedir i'r adroddiad hwn ddarparu data newydd ar nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg. Cyfrifiad 2011 yw'r brif ffynhonnell wybodaeth am hyn o hyd. Fodd bynnag, bydd yr adroddiad hwn yn cymharu nifer y siaradwyr Cymraeg a nodir yn yr arolwg hwn gyda ffynonellau eraill.

6.4 I ategu'r adroddiad hwn, caiff cyfres o dablau eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru, a chaiff y data eu rhoi yn Archif Data'r DU er mwyn i eraill allu dadansoddi'r data dros eu hunain.

6.5 Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

## 7 Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

7.1 Arolwg Cenedlaethol Cymru ddarparodd fframwaith y sampl ar gyfer yr Arolwg Defnydd Iaith. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn arolwg ar raddfa fawr a gynhelir gan Lywodraeth Cymru i gasglu gwybodaeth fanwl am farn a lles pobl.

7.2 Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn golygu cynnal mwy na 14,500 o gyfweliadau wyneb-yn-wyneb 25 munud o hyd gyda hapsampl o bobl 16 oed a throsodd ar draws Cymru bob blwyddyn (tua 660 o gyfweliadau ym mhob awdurdod lleol).

7.3 Dewiswyd y cyfeiriadau ar hap o ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bychain, sy'n berchen i'r Post Brenhinol. Ym mhob aelwyd yn y sampl, cynhaliwyd cyfweliad gydag un oedolyn 16 oed a throsodd. Os oedd mwy nag un oedolyn yn yr aelwyd, dewiswyd un oedolyn ar hap i gymryd rhan.

7.4 Gofynnwyd i'r oedolion a ddewiswyd ar hap i gymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol nodi pob aelod yn eu haelwyd sy'n gallu siarad Cymraeg. Cafodd pob siaradwr Cymraeg gopi o holiadur yr Arolwg Defnydd Iaith i'w lenwi eu hunain a'i ddychwelyd drwy'r post.


7.5 Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr Arolwg Defnydd Iaith rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014 drwy gydol y flwyddyn. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Atodiad am Arolwg Cenedlaethol Cymru a sut y cafodd ei gynnal.

## 8 Faint o bobl yng Nghymru sy’n siarad Cymraeg?

8.1 Cyfrifiad 2011 yw’r ffynhonnell allweddol o wybodaeth am nifer y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg. Nid nod yr Arolwg Defnydd Iaith oedd darparu ystadegau newydd ar nifer y bobl sy’n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn hytrach, y nod oedd creu darlun o ba mor rhugl yw siaradwyr Cymraeg, a sut y maent yn defnyddio’r iaith.

8.2 Mae’r Cyfrifiad wedi casglu gwybodaeth am boblogaeth Cymru a Lloegr bob deng mlynedd ers 1801. Cyflawnwyd y cyfrifiad diweddaraf yng Nghymru a Lloegr ym mis Mawrth 2011.

Roedd Cwestiwn 17 yng Nghyfrifiad 2011 yn gofyn i bobl oedd yn byw yng Nghymru:


17 A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

Ticiwch bob blwch sy’n berthnasol

- ☐ Deall Cymraeg llafar
- ☐ Siarad Cymraeg
- ☐ Darllen Cymraeg
- ☐ Ysgrifennu Cymraeg
- ☐ Dim un o’r uchod

8.3 Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod 19.0 y cant o bobl 3 oed a throsodd sy’n byw yng Nghymru yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Ddeng mlynedd ynghynt, y ffigur yng Nghyfrifiad 2001 oedd 20.8 y cant. Roedd ffigur 2001 yn gynnydd ar ffigur Cyfrifiad 1991, gan atal dirywiad a welwyd drwy gydol yr ugeinfed ganrif.


8.4 Mae’r Arolwg Poblogaeth Blynyddol hefyd yn casglu gwybodaeth am allu ymatebwyr i siarad Cymraeg a pha mor aml y maent yn gwneud hynny. Mae’r Arolwg yn cyfuno canlyniadau’r Arolwg o’r Llafurlu a ariennir gan Gymru, Lloegr a’r Alban.[1] Mae’r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn gofyn i ymatebwyr a ydynt yn gallu siarad Cymraeg ac, os felly, pa mor aml y maent yn ei siarad.

[1] Mae’r Arolwg o’r Llafurlu yn arolwg o amgylchiadau cyflogaeth poblogaeth y Deyrnas Unedig; mae hefyd yn casglu peth data demograffig sylfaenol. Yr Arolwg o’r Llafurlu yw’r arolwg rheolaidd mwyaf o aelwydd yn y Deyrnas Unedig a cheir y mesuriadau swyddogol o gyflogaeth a diweithdra ohono.

8.5 Mae'r cwestiwn am allu yn yr iaith Gymraeg a ddefnyddir yn yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Defnydd Iaith yr un peth â'r cwestiwn a ddefnyddiwyd yn y Cyfrifiad. Serch hynny, mae cyfran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn uwch ym mhob un o'r arolygon hyn nag ydyw yn y Cyfrifiad.

8.6 Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-14 yn dangos bod 23 y cant (673,700) o bob person 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 19.0 y cant (562,000) yng Nghyfrifiad 2011, 27 y cant (787,500) yn yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol a 24 y cant (723,300) yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r siart isod yn dangos sut y mae'r niferoedd yn amrywio yn ôl oedran ar gyfer pob un o'r ffynonellau amgen hyn.

**Siart 1: Canran pobl Cymru sy'n siarad Cymraeg yn ôl oedran a ffynhonnell**




8.7 Mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r arolygon hyn a'r Cyfrifiad wedi'u cynnal yn debygol o fod wedi effeithio ar y canlyniadau. Rhoddodd y Cyfrifiad holiadur i bawb ei lenwi eu hunain, defnyddiodd yr Arolwg Cenedlaethol gyfweliadau wyneb-yn-wyneb gydag un oedolyn 16 oed a throsodd. Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn defnyddio rhai cyfweliadau wyneb-yn-wyneb a rhai cyfweliadau ffôn gydag oedolion


16 oed a throsodd. Efallai bod pobl yn fwy parod i ddweud eu bod yn siarad Cymraeg mewn arolygon a arweinir gan gyfwelydd.

8.8 Dylid hefyd cofio bod asesiad siaradwyr o ba mor dda y maent yn siarad iaith yn gallu bod yn eithaf goddrychol. I rai pobl, mae’r gallu i ddweud ychydig eiriau yn ddigon iddynt ddweud eu bod yn siarad yr iaith. Gall eraill, er eu bod yn siarad yr iaith yn rheolaidd, ddweud nad ydynt yn ei siarad os ydynt yn meddwl eu bod yn fwy cartrefol mewn iaith arall. Pan fo un cwestiwn yn wynebu ymatebwyr mewn arolwg statudol swyddogol, rhaid iddynt wneud penderfyniad pendant o ran p’un a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio. Pan fo cyfwelydd yn bresennol, mae’n bosibl y bydd yr ymatebydd yn teimlo y gall ddisgrifio’i allu’n fanylach i’r cyfwelydd a gall y cyfwelydd annog ymatebwyr i ddweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, er mwyn iddynt allu rhoi rhagor o fanylion am eu gallu yn y cwestiynau i ddilyn. Yn wir, yn yr Arolwg Cenedlaethol, dywedwyd wrth gyfwelwyr am nodi pobl a oedodd cyn ateb (gan fod ganddynt rywfaint o allu i siarad Cymraeg) fel siaradwyr Cymraeg (tua 4 y cant), gan fod cwestiwn ar lefel eu gallu i ddilyn.

8.9 Am y rhesymau hyn, mae’n bosibl bod rhai ymatebwyr y nodwyd eu bod yn siarad Cymraeg yn yr Arolwg Cenedlaethol neu’r Arolwg Poblogaeth Blynyddol wedi nodi nad oeddent yn siarad Cymraeg wrth gwblhau holiadur y Cyfrifiad.

8.10 Un fantais o ran y Cyfrifiad yw bod y data yn ddibynadwy ar gyfer ardaloedd bach. Mae’r map sy’n dilyn yn dangos dosbarthiad niferoedd y bobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yng Nghymru. Mae yna bron 2,000 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru ac mae gan bob un boblogaeth o tua 1,500. Mae’r map yn dangos bod y canrannau sy’n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn uwch na’r cyfartaledd yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn y Gogledd a’r Gorllewin (ac eithrio Sir y Fflint, Wrecsam a rhannau o Sir Benfro), ac ar ei uchaf mewn rhannau o Wynedd a rhannau o Ynys Môn, lle mae mwy na 70 y cant o’r boblogaeth yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae’r canrannau isaf sy’n dweud eu bod yn gallu siarad yr iaith mewn lleoedd ar y ffin â Lloegr ac mewn rhai rhannau o dde Cymru (yn enwedig Sir Fynwy, Casnewydd a Blaenau Gwent).

**Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ACEHI, 2011**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

193.12-13
**Technoleg a Daearyddiaeth**
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013.
Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

8.11 Fel y nodwyd uchod, cafwyd gwahanol amcangyfrifon o ran y ganran o siaradwyr Cymraeg gan Arolwg Defnydd Iaith 2013-14 a’r Arolwg Cenedlaethol (23 y cant a 24 y cant yn ôl eu trefn).

8.12 Y rheswm am y gwahaniaeth hwn yw bod ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol yn dweud pwy, yn eu barn hwy, sy'n gallu siarad Cymraeg yn yr aelwyd. Mae'r cwestiwn cyntaf yn holiadur yr Arolwg Defnydd Iaith, sydd i'w lenwi gan yr ymatebydd ei hun, yn ailadrodd y cwestiwn a ofynnwyd gan yr Arolwg Cenedlaethol.

**C1. A allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**

*Rhowch groes ym mhob blwch perthnasol*

- Deall Cymraeg llafar ☐
- Siarad Cymraeg ☐
- Darllen Cymraeg ☐
- Ysgrifennu Cymraeg ☐
- Dim un o'r uchod ☐

Os **NAD** ydych wedi rhoi croes yn y blwch 'Siarad Cymraeg' does dim rhagor o gwestiynau i'w hateb. Diolch i chi am gyfrannu. Dychwelwch yr holiadur yn yr amlen a ddaeth gyda'r holiadur os gwelwch yn dda. Os ydych yn **GALLU** 'Siarad Cymraeg', ewch i C2.

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*

**C1. Ydy'ch plentyn yn gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**

*Rhowch groes ym mhob un sy'n berthnasol*

| Deall Cymraeg llafar | Siarad Cymraeg | Darllen Cymraeg | Ysgrifennu Cymraeg | Dim un o'r uchod |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |


Os **NAD** ydych wedi rhoi croes yn y blwch 'Siarad Cymraeg' does dim mwy o gwestiynau i'w hateb. Diolch i chi am gyfrannu. Dychwelwch yr holiadur yn yr amlen a ddarparwyd. Os yw'ch plentyn yn **GALLU** 'Siarad Cymraeg', ewch i C2.

*Arolwg Defnydd Iaith Pobl Ifanc 2013-14*

8.13 Datgelodd yr atebion i'r cwestiynau hyn nad oedd pawb yn gytûn â barn yr ymatebydd cyntaf ynghylch gallu aelodau eraill o'r aelwyd yn yr iaith Gymraeg. Er eu bod wedi'u nodi fel siaradwyr Cymraeg yn wreiddiol, dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg. O ganlyniad, bu i'r amcangyfrif a ddarparwyd gan yr Arolwg Cenedlaethol ostwng yn yr Arolwg Defnydd Iaith.

# 9 Pa mor dda y gall pobl siarad Cymraeg?


9.1 Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i oedolion a phobl ifanc 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg am lefel eu rhuglder.


**C2. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich gallu i siarad Cymraeg?**

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Rwy'n rhugl yn Gymraeg ☐
- Rwy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg ☐
- Rwy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg yn unig ☐
- Rwy'n gallu dweud ychydig eiriau yn unig ☐

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*


**C2. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio gallu'ch plentyn i siarad Cymraeg?**


*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

| Yn rhugl yn y Gymraeg | Gall siarad cryn dipyn o Gymraeg | Gall siarad ychydig o Gymraeg yn unig | Gall ddweud ychydig o eiriau yn unig |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Pobl Ifanc 2013-14*

9.2 Er mwyn darparu'r wybodaeth gyd-destunol ar gyfer gweddill yr adroddiad, mae'r siart isod yn cyflwyno canlyniadau'r cwestiynau ar ruglder fel canran o'r boblogaeth gyfan, ac yn ôl oedran.


**Siart 2: Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ôl oedran a rhuglder**



9.3 Amcangyfrifir bod tua 11 y cant (310,600) o bob person 3 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.[2] Mae hyn i'w gymharu â 12 y cant (317,300) yn 2004-06. Tra bod canran y bobl a ddywedodd eu bod yn rhugl ychydig yn llai o'i chymharu â'r arolygon a gynhaliwyd yn 2004-06, mae nifer y bobl rugl wedi aros yr un peth i bob pwrpas, gyda chwymp o 6,600; nid yw hyn yn arwyddocaol yn ystadegol.

9.4 Mae Siart 3 yn cymharu'r canrannau sy'n rhugl a'r canrannau nad ydynt yn rhugl o arolygon 2004-06 ac arolwg 2013-14, yn ôl oedran.

**Siart 3: Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ôl oedran, rhuglder a fesul arolwg**





9.5 Mae canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl ar ei uchaf ymysg pobl ifanc 3 i 15 oed. Mae 15 y cant o'r grŵp oedran hwn yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl. Roedd 16 y cant o bobl ifanc 3-15 oed yn dweud eu bod yn rhugl yn ôl arolygon 2004-06.

[2] Mae hyn wedi ei gyfrifo drwy luosi'r canrannau a gofnodwyd yn rhugl yn yr Arolwg Defnydd Iaith â chanran y siaradwyr Cymraeg a nodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Defnyddiwyd y dull hwn i sicrhau cysondeb â'r dadansoddiad a wnaed ar gyfer arolygon 2004-06.

9.6 Ymddengys, fodd bynnag, o ran pob grŵp oedran fod canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ond nid yn rhugl, wedi cynyddu ychydig. Mae 13 y cant yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ond ddim yn rhugl. Mae hynny'n cymharu â 9 y cant yn arolygon 2004-06.

9.7 Mae'r siart cylch isod (Siart 4) yn dangos lefelau rhuglder siaradwyr Cymraeg. Mae 46 y cant (310,600) o siaradwyr Cymraeg yn ystyried eu hunain yn rhugl yn Gymraeg, ac mae 22 y cant (148,900) yn gallu siarad tipyn o Gymraeg. Yn 2004-06, y ffigur cyfatebol oedd 58 y cant (317,300) yn rhugl ac 21 y cant (115,300) yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg.


**Siart 4: Lefelau rhuglder siaradwyr Cymraeg**




9.8 Mae canran y siaradwyr Cymraeg sy'n ystyried eu hunain yn rhugl yn is na'r hyn a nodwyd yn arolygon 2004-06 gan fod cyfran fwy o bobl wedi nodi eu bod yn gallu siarad ychydig o Gymraeg yn unig neu ddweud ychydig eiriau o Gymraeg yn unig (31 y cant o'i gymharu â 20 y cant yn 2004-06). Dywedodd mwy o ddynion (49 y cant) eu bod yn rhugl na menywod (44 y cant).


9.9 Mae Siart 5 yn cymharu canrannau'r siaradwyr Cymraeg sy'n siarad Cymraeg yn rhugl o arolygon 2004-06 ac arolwg 2013-14, yn ôl oedran. Dywedodd 43 y cant o oedolion o dan 65 oed sy'n siarad Cymraeg eu bod yn rhugl, o'i gymharu â 63 y cant o'r rheini oedd yn  65 oed a throsodd. Gwelwn, o gymharu ag arolygon 2004-06, fod cyfran lai o siaradwyr Cymraeg yn 2013-14 wedi dweud eu bod yn rhugl.

**Siart 5: Canran y siaradwyr Cymraeg sy'n rhugl, yn ôl oedran a blwyddyn yr arolwg**




9.10 Mae Siart 6 yn dangos yr un wybodaeth â Siart 5, ond gan ddefnyddio niferoedd. Mae'n dangos yr effaith y mae'r ffaith fod mwy o bobl yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg, ond ddim yn rhugl, yn ei chael ar ganrannau'r siaradwyr Cymraeg sy'n dweud eu bod yn rhugl. Drwy edrych ar Siart 6, gwelwn fod *niferoedd* y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl wedi gostwng yn y grwpiau 3-15 oed a 45 i 64 oed, ond wedi codi ychydig yn y grwpiau 16-44 oed a 65 oed a throsodd. Nid yw'r gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol, fodd bynnag.

**Siart 6: Nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn ôl oedran a blwyddyn yr arolwg**



# 10 Pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith?


10.1 Gofynnwyd i oedolion a phobl ifanc pa mor aml y maent yn siarad yr iaith:


**C7. Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg?**

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

Bob dydd ☐
Bob wythnos ☐
Llai aml ☐
Byth ☐

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*


**C6. Pa mor aml mae eich plentyn yn siarad Cymraeg?**


*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

| Bob dydd | Bob wythnos | Llai aml | Byth |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Pobl Ifanc 2013-14*

10.2 I roi hyn yn ei gyd-destun, mae'r siart isod yn cyflwyno canlyniadau'r cwestiwn hwn fel canran o'r boblogaeth gyfan ac yn ôl oedran.

**Siart 7: Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ôl oedran ac amlder**





10.3 Amcangyfrifir bod tua 13 y cant (353,000) o bob person 3 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae hyn i'w gymharu â 13 y cant (342,000) a oedd yn siarad Cymraeg bob dydd yn ôl arolygon 2004-06. Yn 2013-14 dywedodd 5 y cant eu bod yn siarad Cymraeg bob wythnos, 5 y cant eu bod yn ei siarad yn llai aml na phob wythnos, a dywedodd 1 y cant o siaradwyr Cymraeg nad oeddent byth yn siarad Cymraeg. Mae Siart 7 yn dangos bod amrywiaeth yn ôl

oedran. Mae 25 y cant o bobl ifanc 3 i 15 oed yn siarad yr iaith bob dydd, o'i gymharu â 10 y cant o bobl 16 i 29 oed a 45 i 64 oed.

**Mae gweddill yr adroddiad hwn yn dadansoddi nodweddion y bobl hynny sydd wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.**

10.4 Mae Siart 8 isod yn cyflwyno canlyniadau'r cwestiwn ynghylch pa mor aml y siaredir yr iaith fel canran o siaradwyr Cymraeg.[3]

**Siart 8: Pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith**




10.5 Mae Siart 8 yn dangos bod ychydig dros hanner y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn ei siarad bob dydd; mae 1 o bob 5 yn ei siarad bob wythnos; mae llai na 1 o bob 4 yn ei siarad yn llai aml na phob wythnos ac mae yna 1 o bob 20 o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg nad ydynt byth yn ei siarad.

10.6 Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013-14, mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad yr iaith yn fwy aml na siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl. Dywedodd 84 y cant (261,000) o siaradwyr Cymraeg rhugl eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, o'i gymharu â 25 y cant (90,000) o'r bobl hynny nad ydynt yn rhugl. Yn arolygon 2004-06, dywedodd 87 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl (276,000) eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, o'i gymharu â 29 y cant (65,000) o bobl nad ydynt yn rhugl.


[3] Gofynnwyd y cwestiwn hwn i ymatebwyr y Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014. Dywedodd 56 y cant eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, 18 y cant eu bod yn siarad Cymraeth bob wythnos, 22 y cant eu bod yn siarad Cymraeg yn llai aml na phob wythnos a 4 y cant nad oeddent byth yn siarad Cymraeg.

10.7 Mae bron pob siaradwr Cymraeg rhugl (94 y cant) yn siarad Cymraeg bob wythnos o leiaf. Mae dros hanner (65 y cant) y bobl sy’n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg yn siarad yr iaith bob wythnos o leiaf. Mae hanner y bobl sy’n gallu siarad ond ychydig o Gymraeg yn ei siarad bob wythnos o leiaf a dywedodd 1 o bob 10 nad ydynt byth yn ei siarad. Nid yw dros chwarter (27 y cant) y bobl sy’n gallu dweud ond ychydig eiriau o Gymraeg byth yn siarad yr iaith.

10.8 Mae pa mor aml y mae pobl yn siarad Cymraeg yn amrywio yn ôl oedran. Mae 58 y cant o siaradwyr Cymraeg 3-15 oed yn siarad Cymraeg bob dydd er mai dim ond 35 y cant ohonynt sy’n rhugl (gweler Siart 5). Mae hyn, mae’n debyg, yn adlewyrchu’r ffaith eu bod yn defnyddio’r iaith yn rheolaidd yn yr ysgol. Dangosodd Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 fod dau o bob tri o bobl ifanc yn siarad Cymraeg bob dydd a chwarter yn ei siarad bob wythnos.

10.9 O ran y grwpiau oedran eraill, mae canrannau’r siaradwyr Cymraeg sy’n siarad Cymraeg bob dydd yn llawer agosach at y canrannau sy’n gallu siarad yr iaith yn rhugl (o fewn 6 pwynt canran) ac felly mae’r cyfrannau sy’n siarad Cymraeg bob dydd yn cynyddu gydag oedran, o 38 y cant o bobl 16 i 29 oed i 61 y cant o bobl 65 oed a throsodd.


**Siart 9: Pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith yn ôl oedran**



10.10 O ran pob grŵp oedran ac eithrio'r grŵp 16-29 oed, mae mwyafrif (dros hanner) y siaradwyr Cymraeg yn ei siarad bob dydd. O ran y grŵp 16-29 oed, dim ond lleiafrif (38 y cant) sy'n gwneud hynny. Mae'r canrannau uchaf o bobl sy'n siarad Cymraeg yn llai aml na phob wythnos (30 y cant) a phobl nad ydynt byth yn siarad yr iaith (10 y cant) i'w cael yn y grŵp 16-29 oed.

10.11 Mae Siart 10 yn dangos pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith yn ôl lefel eu rhugldeb a'u hoedran.

**Siart 10: Pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith yn ôl oedran a rhugldeb**




10.12 Mae dros 80 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl o bob grŵp oedran yn siarad Cymraeg bob dydd, ac eithrio'r grŵp 16-29 oed, lle mae 68 y cant ohonynt yn siarad Cymraeg bob dydd. O ran siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl, pobl ifanc 3-15 oed sydd fwyaf tebygol o siarad yr iaith bob dydd gyda 38 y cant yn dweud eu bod yn gwneud hynny. Fel y nodwyd uchod yn 10.8, mae hyn, mae'n debyg, oherwydd eu bod yn defnyddio Cymraeg yn rheolaidd yn yr ysgol.

# 11 Ble y dysgodd siaradwyr Cymraeg i siarad yr iaith?

11.1 Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i oedolion a phobl ifanc ynghylch ble y bu iddynt ddysgu siarad Cymraeg.

**C3. Ble yn bennaf dysgoch chi siarad Cymraeg?**

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Gartref, fel plentyn ifanc ☐
- Yn yr ysgol feithrin (3-4 oed) ☐
- Yn yr ysgol gynradd (5-10 oed) ☐
- Yn yr ysgol uwchradd (11 oed a throsodd) ☐
- Yn y coleg neu'r brifysgol (amser-llawn) ☐
- Rhywle arall, gan gynnwys ar gwrs Cymraeg i Oedolion ☐
  *Rhowch groes yn y blwch a rhowch fanylion isod*

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*

**C3. Ble yn bennaf dysgodd eich plentyn siarad Cymraeg?**


*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Gartref, fel plentyn ifanc ☐
- Yn yr ysgol feithrin (3-4 oed) ☐
- Yn yr ysgol gynradd (5-10 oed) ☐
- Yn yr ysgol uwchradd (11 oed a throsodd) ☐
- Rhywle arall *Rhowch groes yn y blwch a rhowch fanylion isod* ☐

*Arolwg Defnydd Iaith Pobl Ifanc 2013-14*

11.2 Bu i 45 y cant o siaradwyr Cymraeg ddysgu siarad yr iaith gartref, 12 y cant yn yr ysgol feithrin, 24 y cant yn yr ysgol gynradd a 14 y cant yn yr ysgol uwchradd. Mae'r ganran a ddysgodd siarad Cymraeg yn y cartref yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran; o 21 y cant o siaradwyr Cymraeg ifanc 3 i 15 oed, i 82 y cant o siaradwyr Cymraeg sy'n 65 oed a throsodd. Mae Siart 11 isod yn dangos sut y mae hyn yn amrywio yn ôl oedran.

**Siart 11: Ble y bu i siaradwyr Cymraeg ddysgu'r iaith yn ôl oedran**



11.3 Nododd Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 fod 64 y cant o oedolion oedd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn dweud iddynt ddysgu yn y cartref pan roeddent yn blentyn ifanc (o'i gymharu â 54 y cant yn arolwg 2013-14).

11.4 Y gwrthwyneb sy'n wir o ran y cyfrannau sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol: 3-15 oed (79 y cant), 16-29 oed (65 y cant), 30-44 oed (46 y cant), 45-64 oed (31 y cant), a 65 oed a throsodd (13 y cant). Nid oes llawer o wahaniaeth yn ôl oed ar gyfer y cyfrannau a ddysgodd yr iaith yn nes ymlaen yn eu bywydau.


11.5 Dywedodd mwy o ddynion (47 y cant) iddynt ddysgu Cymraeg gartref yn blentyn na menywod (43 y cant). Roedd y menywod ychydig yn fwy tebygol o fod wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol uwchradd, yn y coleg, a rhywle arall (e.e cwrs 'Cymraeg i oedolion').

11.6 Bu i 73 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl ddysgu Cymraeg gartref, o'i gymharu â 18 y cant o bobl nad ydynt yn rhugl.

11.7 Bu i hanner y bobl ifanc sy'n rhugl yn Gymraeg ddysgu'r iaith gartref a'r hanner arall yn y feithrinfa neu'r ysgol gynradd.

## 12 Iaith y cartref yn ystod plentyndod


12.1 Yn yr Arolwg Defnydd Iaith, gofynnwyd i oedolion pa mor dda yr oedd eu rhieni'n gallu siarad Cymraeg pan oeddent yn blant. Gofynnwyd cwestiwn tebyg i bobl ifanc am allu cyfredol eu rhieni yn y Gymraeg a chwestiwn ychwanegol am eu brodyr a'u chwiorydd. Mae'r cwestiwn hwn yn darparu gwybodaeth ar lefelau rhuglder ehangach yr aelwyd a'r berthynas rhwng hynny a lefelau rhuglder y plentyn ei hun.


**C4. Pa mor dda oedd eich rhieni yn gallu siarad Cymraeg pan oeddech chi'n blentyn?**

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Cymraeg Rhugl | Eithaf Rhugl | Rhywfaint o Gymraeg | Dim Cymraeg | Ddim yn gwybod | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tad | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mam | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*



**C4. Pa mor dda mae'r aelodau canlynol o'r teulu yn gallu siarad Cymraeg?**

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*


| | Cymraeg Rhugl | Eithaf Rhugl | Rhywfaint o Gymraeg | Dim Cymraeg | Ddim yn gwybod | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tad y plentyn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mam y plentyn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Brawd (brodyr)/chwaer (chwiorydd) y plentyn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Pobl Ifanc 2013-14*

12.2 Mae gan 50 y cant o siaradwyr Cymraeg o leiaf un rhiant sy'n rhugl yn Gymraeg, ac mae gan 25 y cant rieni nad ydynt yn medru'r Gymraeg o gwbl.

12.3 Mae Siart 12 yn dangos y berthynas rhwng rhuglder siaradwyr Cymraeg a gallu eu rhieni yn yr iaith. O ran siaradwyr Cymraeg yr oedd eu tadau'n siarad Cymraeg yn rhugl, mae 82 y cant ohonynt hefyd yn siarad yr iaith yn rhugl – yr un ganran ag ar gyfer siaradwyr Cymraeg yr oedd eu mamau'n siarad Cymraeg yn rhugl.

**Siart 12: Rhuglder yn y Gymraeg, yn ôl rhuglder rhieni'r ymatebwyr pan oeddent yn blant**




12.4 Mae'r siart yn dangos nad oes llawer o wahaniaeth rhwng dylanwad rhuglder y tad ar allu'r plentyn, o'i gymharu â dylanwad rhuglder y fam.


12.5 Pan mai dim ond y fam oedd yn gallu siarad unrhyw Gymraeg, mae 28 y cant yn rhugl, a phan mai dim ond y tad oedd yn medru'r Gymraeg, mae 36 y cant yn rhugl.

O ran siaradwyr Cymraeg â dau riant oedd yn rhugl yn Gymraeg, mae 90 y cant hefyd yn rhugl. Mae 77 y cant o'r bobl oedd ag o leiaf un rhiant yn rhugl hefyd yn rhugl. Fodd bynnag, dim ond 19 y cant o siaradwyr Cymraeg nad oedd ganddynt fam neu dad rhugl sy'n dweud eu bod yn rhugl. O ran y rheini nad oedd eu rhieni'n gallu siarad unrhyw Gymraeg o gwbl, mae 16 y cant yn rhugl.

12.6 O ran siaradwyr Cymraeg oedd â'u dau riant yn rhugl, bu i 97 y cant ddysgu i siarad Cymraeg yn y cartref. Pan mai dim ond y fam oedd yn rhugl, bu i 63 y cant ddysgu Cymraeg yn y cartref. Pan mai dim ond y tad oedd yn rhugl, bu i 49 y cant ddysgu Cymraeg yn y cartref.

12.7 Mae cyfrannau'r siaradwyr Cymraeg oedd â rhiant yn rhugl yn yr iaith yn cynyddu'n raddol gydag oedran. Dangosir hyn yn Siart 13 isod. Mae gan 18 y cant o bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg dad sy'n rhugl ac mae gan 22 y cant fam sy'n rhugl, o'i gymharu â 73 y cant ar gyfer tadau a 72 y cant ar gyfer mamau o ran pobl sy'n 65 oed a throsodd.

**Siart 13: Siaradwyr Cymraeg â rhieni rhugl, yn ôl oedran**





12.8 O ran pobl ifanc sy'n rhugl yn Gymraeg, mae gan 46 y cant dad sy'n rhugl (neu'n eithaf rhugl) yn Gymraeg ac mae gan 54 y cant fam sy'n rhugl (neu'n eithaf rhugl). O'r rheini sydd â brawd neu chwaer, mae gan bron bob un ohonynt (92 y cant) frawd

neu chwaer sy’n rhugl (neu’n eithaf rhugl). O ran pobl ifanc sy’n medru tipyn o Gymraeg, mae gan 8 y cant dad sy’n rhugl (neu’n eithaf rhugl) yn Gymraeg ac mae gan 26 y cant fam sy’n rhugl (neu’n eithaf rhugl). Mae gan 47 y cant frawd neu chwaer sy’n rhugl, neu’n eithaf rhugl.

## 13 Pa mor dda y gall siaradwyr Cymraeg ysgrifennu Cymraeg?

13.1 Gofynnwyd i oedolion a gwblhaodd yr Arolwg Defnydd Iaith pa mor dda y maent yn gallu ysgrifennu Cymraeg.



**C8. Pa mor dda ydych chi’n gallu ysgrifennu Cymraeg?**

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Yn dda iawn ☐
- Yn dda ☐
- Ddim yn dda ☐
- Dim o gwbl ☐


*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*

13.2 Mae’r arolwg hwn yn amcangyfrif bod 457,000 o oedolion 16 oed a throsodd yn gallu ysgrifennu Cymraeg (nododd Cyfrifiad 2011 fod 321,231 o oedolion yn gallu ysgrifennu Cymraeg).

13.3 O ran oedolion sy’n gallu siarad Cymraeg, dywedodd 28 y cant eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn, a dywedodd 29 y cant eu bod yn ysgrifennu Cymraeg yn dda. Dywedodd 35 y cant eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg, ond nid yn dda. Nododd Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 fod 66 y cant (257,000) o oedolion a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi dweud eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda neu’n dda iawn (o’i gymharu â 57 y cant, 281,000)yn arolwg 2013-14).

13.4 Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o allu ysgrifennu Cymraeg yn dda na siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl. Hefyd, dywedodd mwy o siaradwyr Cymraeg ifanc eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda na siaradwyr Cymraeg hŷn. Gallai hyn fod yn sgil y cynnydd o ran faint o Gymraeg sydd wedi ei dysgu’n ffurfiol mewn ysgolion dros y blynyddoedd. Mae Siart 14 yn dangos y gwahaniaeth o ran sgiliau ysgrifennu a nodwyd gan y rhai sy’n rhugl a’r rhai nad ydynt yn rhugl, ac yn ôl oedran.

**Siart 14: Disgrifiad siaradwyr Cymraeg o'u gallu i ysgrifennu yn Gymraeg yn ôl eu rhuglder a'u hoedran**




13.5 Mae cyfrannau'r siaradwyr Cymraeg rhugl a'r siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl a ddywedodd eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda neu'n dda iawn ychydig yn uwch yn y grŵp oedran ifancaf (16 i 29 oed), nag yn y grwpiau oedran hŷn.

13.6 Nododd Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 fod 86 y cant o oedolion a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda neu'n dda iawn - cyfran tebyg i arolwg 2013-14 (89 y cant). Hefyd, nododd arolygon 2004-06 fod 75 y cant o bobl 16-29 oed yn dweud eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda neu'n dda iawn (63 y cant yn 2013-14), 63 y cant o bobl 30-44 oed (56 y cant yn 2013-14), 62 y cant o bobl 45-64 oed (48 y cant yn 2013-14), a 65 y cant o bobl 65 oed a throsodd (60 y cant yn 2013-14).

13.7 O ran oedolion oedd yn siaradwyr Cymraeg rhugl, dywedodd 9 allan o 10 eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda (35 y cant) neu'n dda iawn (54 y cant). Mae gallu pobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg i ysgrifennu Cymraeg wedi ei rannu'n eithaf cyfartal rhwng pobl a ddywedodd eu bod yn gallu ysgrifennu'n dda neu'n dda iawn (44 y cant) a phobl a ddywedodd nad ydynt yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda neu ddim o gwbl (56 y cant).

## 14 Ym mha sefyllfaoedd y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith?

14.1 Gofynnwyd i siaradwyr Cymraeg pa iaith y maent yn ei siarad yn bennaf mewn ystod o sefyllfaoedd. Defnyddiwyd y cwestiwn hwn i gael data ynghylch i ba raddau y mae pobl yn siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd. Gofynnwyd y cwestiwn mewn ffordd ychydig yn wahanol i oedolion a phobl ifanc. Mae'n darparu gwybodaeth ynghylch amgylchedd ieithyddol y cartref ac, ar gyfer pobl ifanc, mae'n caniatáu cymharu pa mor aml y defnyddir yr iaith gartref ac yn yr ysgol.

**C5. Pa iaith ydych chi'n ei siarad yn bennaf yn y sefyllfaoedd canlynol...**

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gartref? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn yr ysgol, coleg neu brifysgol? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gyda'ch ffrindiau? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gyda'ch cymydog agosaf? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ar gyfer gweithgareddau bob dydd fel siopa neu fynd ar y bws? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*

**C5. Pa iaith mae eich plentyn yn ei siarad yn bennaf yn y sefyllfaoedd canlynol...**


*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gartref? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn yr ysgol? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn siarad â ... | | | | | | | |
| Tad? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mam? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Nain/Mam-gu a Taid/Tad-cu? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ffrindiau? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Pobl Ifanc 2013-14*

14.2 Mae 20 y cant o siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg gartref bob amser (neu bron bob amser). Mae'r ganran hon yn cynyddu'n raddol gydag oedran, o 9 y cant o bobl ifanc 3-15 oed, i 38 y cant o bobl 65 oed a throsodd. Mae dynion ychydig yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod bob amser yn siarad Cymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r patrwm hwn i'w weld hefyd wrth ganolbwyntio ar y siaradwyr Cymraeg rhugl yn unig. Dangosir hyn yn Siart 15.

**Siart 15: Iaith a siaredir gartref gan siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran**





14.3 Mae 43 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg gartref bob amser (neu bron bob amser). Mae hyn yn amrywio o 27 y cant o blant 3 i 15 oed rhugl i 57 y cant o bobl rugl 65 oed a throsodd. Nododd Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 fod 47 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl bob amser (neu bron bob amser) yn siarad Cymraeg gartref, gan amrywio o 31 y cant o blant 3 i 15 oed rhugl i 62 y cant o bobl rugl 65 oed a throsodd.

14.4 Mae 21 y cant o siaradwyr Cymraeg bob amser (neu bron bob amser) yn siarad Cymraeg yn yr ysgol, coleg neu'r brifysgol.[4] Mae hyn yn amrywio yn ôl oedran: mae 28 y cant o blant 3 i 15 oed yn siarad Cymraeg yn bennaf yn yr ysgol. Mae'r ffigur yn gostwng i 13 y cant o ran pobl 16 i 29 oed ac yn cynyddu i 25 y cant o ran pobl 65 oed a throsodd. Mae Siart 16 yn dangos sut y mae hyn yn amrywio yn ôl oedran ar gyfer pobl sy'n rhugl. Mae 44 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl bob amser (neu bron bob amser) yn siarad Cymraeg yn yr ysgol, coleg neu'r brifysgol. Mae Siart 16 yn dangos bod hyn yn amrywio o 61 y cant o bobl ifanc rugl 3 i 15 oed i 31 y cant o bobl

[4] Er i'r cwestiwn ofyn "Pa iaith *ydych chi*'n ei siarad yn yr ysgol coleg neu brifysgol", ac er bod cyfle i nodi 'amherthnasol', mae'n ymddangos bod cyfran sylweddol o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn gan gyfeirio at eu defnydd iaith pan oeddent yn yr ysgol/coleg/prifysgol.


rugl 16 i 29 oed. Mae hyn yn batrwm tebyg i'r hyn a welir yn Siart 10 ynghylch pa mor aml y mae pobl yn siarad yr iaith.

**Siart 16: Iaith a siaradwyd yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol gan siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl oedran**





14.5 Mae 61 y cant o bobl ifanc 3 i 15 oed sy'n rhugl yn Gymraeg yn siarad Cymraeg yn yr ysgol bob amser. 22 y cant o'r un grŵp sydd bob amser yn siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau. Dangosir hyn yn Siart 17 isod.

**Siart 17: Iaith a siaredir gyda ffrindiau gan siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl oedran**



14.6 Wrth edrych ar siaradwyr Cymraeg, boed yn rhugl ai peidio, gwelwn fod 13 y cant ohonynt yn siarad yr iaith gyda'u ffrindiau bob amser. Mae hyn yn amrywio o 8 y cant o bobl 16 i 29 oed i 26 y cant o oedolion 65 oed a throsodd.

14.7 Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i oedolion am yr iaith y gwnaethant ei defnyddio yn eu sgwrs fwyaf diweddar gyda rhywun nad oedd yn eu teulu.



**C6. Gan feddwl am y sgwrs ddiweddaraf a gawsoch chi gyda rhywun nad yw'n perthyn i'ch teulu, pa iaith wnaethoch chi ei siarad?**

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Cymraeg ☐
- Saesneg ☐
- Arall ☐
  *Rhowch groes yn y blwch a rhowch fanylion isod*

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*

14.8 Dywedodd 31 y cant o siaradwyr Cymraeg mai yn Gymraeg oedd eu sgwrs fwyaf diweddar gyda rhywun nad oedd yn aelod o'u teulu a dywedodd 69 y cant mai yn Saesneg ydoedd. Nododd Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 fod 41 y cant o oedolion oedd wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi dweud mai yn Gymraeg oedd eu sgwrs fwyaf diweddar gyda rhywun nad oedd yn aelod o'u teulu.

14.9 Mae cyfrannau'r siaradwyr Cymraeg sy'n dweud mai yn Gymraeg oedd eu sgwrs ddiwethaf yn cynyddu'n raddol gydag oedran, o 21 y cant o'r rheini sy'n 16 i 29 oed i 46 y cant o bobl sy'n 65 oed a throsodd. Mae dynion (33 y cant) ychydig yn fwy tebygol o ddweud mai yn Gymraeg oedd eu sgwrs ddiwethaf na menywod (29 y cant).

14.10 Dywedodd dros hanner (56 y cant) o siaradwyr Cymraeg rhugl mai yn Gymraeg oedd eu sgwrs fwyaf diweddar.

## 15 Negeseuon testun, e-bost, a defnyddio cyfryngau cymdeithasol

15.1 Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-14 wedi casglu gwybodaeth newydd ynghylch i ba raddau y caiff y Gymraeg ei defnyddio gan bobl ifanc ac oedolion i ryngweithio'n gymdeithasol gyda'u ffrindiau, drwy decstio, e-bostio ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Ni ofynnwyd y cwestiynau hyn yn yr arolygon defnydd iaith blaenorol.

**C9. Pa iaith ydych chi'n ei defnyddio fel arfer i...**

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anfon neges destun o ffôn symudol at ffrind? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Anfon e-bost at ffrind? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ysgrifennu ar Facebook? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ysgrifennu ar Twitter? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*

**C7. Pa ieithoedd mae eich plentyn yn eu defnyddio fel arfer i...**

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anfon neges destun o ffôn symudol at ffrind? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Anfon e-bost at ffrind? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol *(e.e. Bebo, Facebook)?* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Pobl Ifanc 2013-14*

15.2 Mae 13 y cant o siaradwyr Cymraeg (sy'n anfon negeseuon testun) yn anfon negeseuon testun at ffrind yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf. Mae 10 y cant (o'r rheini sy'n e-bostio) yn anfon e-bost at ffrind yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf. Mae 9 y cant o oedolion (sy'n defnyddio Facebook) yn ysgrifennu yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf ar Facebook, a 6 y cant (sy'n defnyddio Twitter) yn ysgrifennu yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf ar Twitter.[5]

15.3 Mae'r gyfran o bobl nad ydynt yn rhugl sy'n tecstio, e-bostio neu'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf yn fach iawn.


---

[5] Mae nifer y pobl ifanc a atebodd y cwestiwn ar y cyfryngau cymdeithasol yn fach iawn, felly dadansoddwn hyn ar ôl cael gwerth dwy flynedd o ddata.

15.4 Mae 29 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn anfon negeseuon testun at ffrindiau yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf. Mae 23 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn anfon e-bost at ffrindiau yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf. Mae 20 y cant o oedolion rhugl yn ysgrifennu yn Gymraeg ar Facebook bob amser neu'n bennaf ac mae 16 y cant yn ysgrifennu yn Gymraeg ar Twitter bob amser neu'n bennaf.

15.5 Mae Siart 18 yn dangos sut y mae'r iaith a ddefnyddir i decstio ac e-bostio yn amrywio yn ôl oedran o ran pobl sy'n rhugl.

**Siart 18: Iaith a ddefnyddir gan siaradwyr Cymraeg rhugl i decstio ac e-bostio yn ôl oedran**




15.6 Mae Siart 18 yn dangos, o ran pobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, fod y cyfrannau sy'n tecstio neu'n e-bostio yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf yn cynyddu gydag oedran. O ran oedolion, mae canran ychydig yn is yn e-bostio yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf na sy'n tecstio. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir i bobl ifanc.

15.7 Mae'r defnydd o'r Gymraeg wrth anfon negeseuon digidol neu ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn cynyddu gydag oedran. O ran siaradwyr Cymraeg rhugl, mae 16 y cant o bobl 16-29 oed yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf ar

Facebook, a 13 y cant ar Twitter. I gymharu, mae 22 y cant a 26 y cant o bobl 65 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf ar y gwefannau hyn, yn ôl eu trefn.

## 16 Y Defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned

16.1 Yn ogystal, mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-14 wedi casglu gwybodaeth newydd ynghylch i ba raddau y mae pobl ifanc ac oedolion yn mynd i ddigwyddiadau diwylliannol a gynhelir yn Gymraeg. Roedd y cwestiwn i bobl ifanc wedi'i rannu'n ddigwyddiadau a drefnwyd gan yr ysgol y tu allan i oriau'r ysgol a digwyddiadau na chawsant eu trefnu gan yr ysgol.

**C13. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, aethoch chi i ddigwyddiad neu weithgaredd...**

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Do | Naddo | Ddim yn gwybod/ Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| **gymdeithasol neu ddiwylliannol** wedi ei gynnal yn Gymraeg? *(e.e. cyngerdd, eisteddfod, gig, côr neu gymdeithas)* | ☐ | ☐ | ☐ |
| **chwaraeon** wedi ei gynnal yn Gymraeg? *(e.e. clwb chwaraeon, cymdeithas neu gwrs)* | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*

**C9. Yn y flwyddyn ddiwethaf, ydy'ch plentyn wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd yn Gymraeg na chafodd ei drefnu gan yr ysgol** *(e.e. wedi ei drefnu gan glwb chwaraeon cymunedol, Menter Iaith, yr Urdd)***...**

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Ydy | Nac ydy | Ddim yn gwybod/ ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| digwyddiad neu weithgaredd **gymdeithasol neu ddiwylliannol** wedi ei gynnal yn Gymraeg *(e.e. cyngerdd, eisteddfod, gig, côr neu gymdeithas)*? | ☐ | ☐ | ☐ |
| digwyddiad neu weithgaredd **chwaraeon** wedi ei gynnal yn Gymraeg *(e.e. clwb chwaraeon, cymdeithas neu gwrs)*? | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Pobl Ifanc 2013-14*

**C10. Yn y flwyddyn ddiwethaf, ydy'ch plentyn wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd yn Gymraeg a gafodd ei drefnu gan yr ysgol ond tu allan i oriau'r ysgol...**

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Ydy | Nac ydy | Ddim yn gwybod/ ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| digwyddiad neu weithgaredd **gymdeithasol neu ddiwylliannol** wedi ei gynnal yn Gymraeg *(e.e. cyngerdd, eisteddfod, gig, côr neu gymdeithas)*? | ☐ | ☐ | ☐ |
| digwyddiad neu weithgaredd **chwaraeon** wedi ei gynnal yn Gymraeg *(e.e. clwb chwaraeon, cymdeithas neu gwrs)*? | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Pobl Ifanc 2013-14*


16.2 Dywedodd 43 y cant o oedolion sy'n siarad Cymraeg eu bod wedi mynd i ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol a gynhaliwyd yn Gymraeg yn y flwyddyn

flaenorol a dywedodd 18 y cant ohonynt eu bod wedi mynd i ddigwyddiad chwaraeon a gynhaliwyd yn Gymraeg.

16.3 Mae'r gyfran sydd wedi bod i ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol a gynhaliwyd yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn flaenorol yn cynyddu ychydig gydag oedran[6]. Mae'r ffigur yn lleihau ychydig gydag oedran o ran digwyddiadau chwaraeon. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng dynion a menywod, ond mae menywod ychydig yn fwy tebygol o fod wedi mynd i ddigwyddiad diwylliannol a gynhaliwyd yn Gymraeg.

16.4 Mae canran y bobl sydd wedi bod i ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol neu chwaraeon a gynhaliwyd yn Gymraeg yn uwch o ran oedolion rhugl na phobl nad ydynt yn rhugl. Mae 55 y cant o oedolion sy'n rhugl yn y Gymraeg wedi bod i ddigwyddiad diwylliannol a gynhaliwyd yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac mae 27 y cant wedi bod i ddigwyddiad chwaraeon a gynhaliwyd yn Gymraeg. Mae Siart 19 yn dangos cyfran y siaradwyr Cymraeg sydd wedi bod i ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol neu chwaraeon o'r fath, yn ôl oedran a rhuglder.

**Siart 19: Cyfran y siaradwyr Cymraeg sydd wedi bod i ddigwyddiad neu weithgaredd cymdeithasol, diwylliannol neu chwaraeon, yn ôl rhuglder ac oedran**




[6] Nid oes cwestiynau am bresenoldeb a chyfranogiad *cyffredinol* y gellir eu cymharu'n fanwl. Fodd bynnag, mae Arolwg ar Oedolion Egnïol 2012 yn dangos bod cyfraddau *cymryd rhan* mewn chwaraeon yn gostwng gydag oedran; mae hyn yn cyd-fynd â thueddiadau *presenoldeb* a nodwyd yn yr arolwg hwn. Fodd bynnag, yn 2010 dangosodd Arolwg Celfyddydau Cymru fod pobl 65 oed a throsodd yn llawer llai tebygol na phobl iau o *fynd i ddigwyddiadau celfyddydol*, ac ychydig yn llai tebygol o *gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol*; nid yw hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r arolwg hwn.


16.5 Mae'r cyfrannau sydd wedi bod i ddigwyddiadau cymdeithasol neu ddiwylliannol yn eithaf uchel ar gyfer oedolion sydd ond yn siarad rhywfaint o Gymraeg hefyd: tua chwarter yr oedolion sy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg a thua 1 o bob 5 o'r rheini sydd ond yn gallu dweud ychydig eiriau.

16.6 Mae'r cwestiynau a ofynnwyd i bobl ifanc yn dangos i ba raddau y mae'r iaith Gymraeg yn rhan o fywyd cymdeithasol plant a phobl ifanc. Hefyd, maent yn rhoi awgrym o i ba raddau y mae'r defnydd hwn a wneir o'r Gymraeg yn ddibynnol ar weithgareddau a drefnir gan ysgolion.

16.7 Yn y flwyddyn flaenorol, roedd 38 y cant o bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg wedi bod i ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol a gynhaliwyd yn Gymraeg nad oedd wedi ei drefnu gan yr ysgol, ac roedd 24 y cant wedi bod i ddigwyddiad chwaraeon o'r fath. Roedd 47 y cant wedi bod i ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol a gynhaliwyd yn Gymraeg a drefnwyd gan yr ysgol (ond y tu allan i oriau ysgol), ac roedd 29 y cant wedi bod i ddigwyddiad chwaraeon o'r fath.

16.8 Mae Siart 20 yn dangos cyfran y bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg a aeth i ddigwyddiad diwylliannol neu chwaraeon Cymraeg, p'un a oedd wedi ei drefnu gan eu hysgol ai peidio, yn ôl rhuglder.

**Siart 20: Cyfran y bobl ifanc a aeth i ddigwyddiad cymdeithasol, diwylliannol neu chwaraeon yn ôl rhuglder**



16.9 Aeth 64 y cant o bobl ifanc sy’n rhugl ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol na chafodd ei drefnu gan yr ysgol, o’i gymharu â 76 y cant a aeth i ddigwyddiad o’r fath a drefnwyd gan yr ysgol. Aeth 47 y cant o bobl ifanc sy’n rhugl i ddigwyddiad chwaraeon na drefnwyd gan yr ysgol ac aeth 61 y cant i ddigwyddiad o’r fath a drefnwyd gan yr ysgol. Mae’r cyfrannau a aeth i’r ddau fath o ddigwyddiad yn is i bobl ifanc sy’n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg ac yn is eto ar gyfer pobl ifanc sy’n gallu siarad ychydig o Gymraeg neu ddweud ychydig eiriau o Gymraeg.

# 17 Iaith addysg

17.1 Gofynnwyd i oedolion a phobl ifanc am iaith eu haddysg drwy holi'r cwestiynau isod, sy'n wahanol i'w gilydd:

**C10. Beth oedd iaith eich addysg ar bob un o'r camau canlynol…**

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Cymraeg yn unig | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Saesneg yn unig | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn yr ysgol feithrin? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn yr ysgol gynradd? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn yr ysgol uwchradd? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*

**Atebwch gwestiwn 8 os yw eich plentyn yn yr ysgol uwchradd – fel arall ewch i gwestiwn 9.**

**C8. Ym mha iaith y dysgir y pynciau canlynol i'ch plentyn yn yr ysgol uwchradd?**

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mathemateg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwyddoniaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Daearyddiaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Celf a Dylunio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dylunio a Thechnoleg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Hanes | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Addysg Gorfforol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ieithoedd Modern | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cerddoriaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Drama | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Pobl Ifanc 2013-14*


17.2 Aeth 44 y cant o oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg i ysgol feithrin lle mai dim ond y Gymraeg oedd yn cael ei siarad, neu'r Gymraeg yn bennaf. Aeth 47 y cant i ysgol gynradd a 33 y cant i ysgol uwchradd lle mai dim ond y Gymraeg oedd yn cael ei siarad, neu'r Gymraeg yn bennaf. Mae'r cyfrannau a fynychodd ysgol feithrin, cynradd ac uwchradd lle mai dim ond y Gymraeg oedd yn cael ei siarad, neu'r Gymraeg yn bennaf, yn fwy ar gyfer pobl o dan 45 oed ac yn llai ar gyfer pobl 45 oed a throsodd.

17.3 Mae siaradwyr Cymraeg sy'n rhugl yn fwy tebygol o fod wedi mynychu pob un o'r tair lefel o'r ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg na'r rheini nad ydynt yn rhugl. Y Gymraeg (neu'r Gymraeg yn bennaf) oedd iaith ysgol feithrin ac ysgol gynradd mwy na thri-


chwarter siaradwyr Cymraeg rhugl, a’r Gymraeg (neu’r Gymraeg yn bennaf) oedd iaith addysg uwchradd hanner ohonynt.

17.4 Mae Siartiau 21, 22 a 23 yn dangos sut y mae iaith addysg yn amrywio yn ôl oedran a lefelau rhuglder ar gyfer lefelau meithrin, cynradd ac uwchradd.


**Siart 21: Iaith addysg feithrin yn ôl oedran a rhuglder**




**Siart 22: Iaith addysg gynradd yn ôl oedran a rhuglder**



**Siart 23: Iaith addysg uwchradd yn ôl oedran a rhugldr**





17.5 Mae'r tri siart uchod yn dangos bod cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg rhugl wedi mynd i ysgol feithrin, ysgol gynradd neu ysgol uwchradd lle'r oedd yr addysg drwy gyfrwng y Gymraeg (yn unig neu'n bennaf), o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn rhugl. Hefyd, mae pobl ifanc, p'un a ydynt yn rhugl ai peidio, yn fwy tebygol o fod wedi cael pob un o'r tair lefel o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg (yn unig neu'n bennaf) o'i gymharu â'r bobl yn y grwpiau oedran hŷn.

17.6 O ran pob grŵp oedran a phob lefel o rugldr, mae'r cyfrannau a fynychodd ysgol gynradd lle mai'r Gymraeg (yn unig neu'n bennaf) oedd iaith yr addysg yn uwch na'r cyfrannau a fynychodd ysgol uwchradd lle mai'r Gymraeg (yn unig neu'n bennaf) oedd iaith yr addysg.

17.7 Mae 86 y cant o siaradwyr Cymraeg a fynychodd ysgol uwchradd lle mai'r Gymraeg (yn unig neu'n bennaf) oedd iaith yr addysg yn dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg. Mae hyn o'i gymharu â 33 y cant o'r rheini a fynychodd ysgol uwchradd lle'r oedd yr addysg yn Saesneg (yn unig neu'n bennaf) neu yn Gymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal.


17.8 Mae Siart 24 yn dangos sut y mae hyn yn amrywio yn ôl oedran. Mae 96 y cant o siaradwyr Cymraeg 65 oed a throsodd a fynychodd ysgol uwchradd lle mai'r Gymraeg (yn unig neu'n bennaf) oedd iaith yr addysg yn dweud eu bod yn rhugl yn Gymraeg. Mae hyn yn cymharu â 79 y cant o siaradwyr Cymraeg 16 i 29 oed.

**Siart 24: Y ganran sy'n rhugl yn Gymraeg yn ôl iaith eu haddysg uwchradd**





17.9 Mae Siart 25 isod yn dangos yr union yr un siart, ond gan ddefnyddio niferoedd. Mae Siartiau 24 a 25 yn dangos tra bod cyfran lai o bobl yn y grwpiau oedran iau, a gafodd eu haddysg uwchradd yn Gymraeg (yn unig neu'n bennaf), yn rhugl, o'u cymharu a'r grwpiau hŷn roedd nifer fwy ohonynt wedi cael eu haddysg uwchradd yn Gymraeg (yn unig neu'n bennaf).

**Siart 25: Y nifer sy'n rhugl a ddim yn rhugl yn Gymraeg, yn ôl iaith eu haddysg uwchradd**



17.10 Gofynnwyd i bobl ifanc 11 i 15 oed a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg ym mha iaith maent yn astudio gwahanol bynciau yn yr ysgol uwchradd. Dangosir eu hatebion yn Siart 26 isod.


**Siart 26: Yr iaith y mae siaradwyr Cymraeg 11 i 15 oed yn astudio pynciau ynddi yn yr ysgol uwchradd**




17.11 Mae'r siart yn dangos, ac eithrio Cymraeg fel pwnc, fod cyfran y siaradwyr Cymraeg y dysgir y pynciau eraill iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio o 36 y cant o ran Gwyddoniaeth ac Ieithoedd Modern i 41 y cant o ran Daearyddiaeth. Nododd 73 y cant bod yr iaith Gymraeg yn cael ei ddysgu iddynt yn Gymraeg (neu'n bennaf yn Gymraeg).

17.12 Mae pobl ifanc sy'n rhugl yn Gymraeg yn fwy tebygol o astudio pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, na thrwy gyfrwng y Saesneg. Mae Siart 27 yn dangos yr iaith y dysgwyd y gwahanol bynciau ynddi ar gyfer pobl ifanc rhugl. Mae'r cyfrannau o bobl ifanc rugl 11 i 15 oed sy'n cael eu dysgu yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf yn amrywio o 76 y cant ar gyfer Gwyddoniaeth i  90 y cant ar gyfer Daearyddiaeth, ac o 91 y cant ar gyfer Hanes i 97 y cant ar gyfer Cymraeg.

**Siart 27: Yr iaith y mae siaradwyr Cymraeg rhugl 11 i 15 oed yn astudio pynciau ynddi yn yr ysgol uwchradd**




17.13 Dangosodd Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 fod 95 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn astudio Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg (bob amser neu'n bennaf). Roedd 68 y cant a 65 y cant, yn ôl eu trefn, yn astudio Mathemateg a Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg (bob amser neu'n bennaf).

17.14 Prin iawn (llai na 13 y cant) yw'r bobl nad ydynt yn rhugl sy'n astudio unrhyw bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg (bob amser neu'n bennaf) heblaw am y Gymraeg ei hun fel pwnc. Mae 59 y cant o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn astudio Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg; mae hyn yn cymharu â 56 y cant yn ôl arolygon 2004-06.

17.15 Nododd 79 y cant o bobl ifanc 11 i 15 oed sydd yn astudio Mathemateg, Gwyddoniaeth a Chymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg eu bod yn rhugl yn yr iaith.

# 18 Delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg

18.1 Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-14 hefyd wedi casglu gwybodaeth newydd ynghylch i ba raddau y mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cyhoeddus neu swyddogol, ac mae'n dangos sut y mae eu hymdrechion i siarad Cymraeg yn cymharu â'r defnydd gwirioneddol a wneir ohoni. Gofynnwyd y ddau gwestiwn canlynol i oedolion yn unig.

**C11. Ydych chi'n ceisio defnyddio'r Gymraeg...**
*(e.e. drwy chwilio am, drwy ddewis neu drwy ofyn am opsiwn Cymraeg)*

*Rhowch groes mewn blwch ym mhob rhes*

| | Ydw, bob amser | Ydw, fel arfer | Ydw, weithiau | Nac ydw | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| Wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus? *(e.e. eich cyngor sir)* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| I lenwi ffurflenni swyddogol? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Os ydych wedi dewis '**Nac ydw**' neu '**Amherthnasol**' ar gyfer y ddau opsiwn yn C11 ewch yn syth i **C13**.

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*

**C12. Pa mor aml ydych chi'n llwyddo i ddefnyddio'r Gymraeg...**
*(e.e. llwyddo i siarad â rhywun yn Gymraeg, neu i gael deunyddiau yn Gymraeg)*

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Bob amser/ bron bob amser | Fel arfer | Weithiau | Byth | Amherthnasol/ Erioed wedi ceisio |
|---|---|---|---|---|---|
| Wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus? *(e.e. eich cyngor sir)* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| I lenwi ffurflenni swyddogol? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*

18.2 Mae 51 y cant o siaradwyr Cymraeg yn ceisio (weithiau o leiaf) defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus megis cyngor sir, ac mae ychydig yn llai (37 y cant) yn ceisio ei defnyddio i gwblhau ffurflenni swyddogol. O'r bobl sydd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg, mae 22 y cant yn llwyddiannus bob tro, mae 31 y cant yn llwyddiannus fel arfer ac mae 42 y cant yn llwyddiannus weithiau wrth ddefnyddio Cymraeg i ddelio â sefydliad cyhoeddus. O ran llenwi ffurflenni swyddogol, mae 17 y cant yn llwyddiannus bob amser, mae 36 y cant yn llwyddiannus fel arfer ac mae 45 y cant yn llwyddiannus weithiau.

18.3 O ran yr Arolwg Defnydd Iaith hwn, cwblhaodd 28 y cant yr arolwg yn Gymraeg. O'r rheini a ddywedodd eu bod bob amser neu bron bob amser yn ceisio defnyddio'r Gymraeg i lenwi ffurflenni swyddogol, cwblhaodd 79 y cant ohonynt yr arolwg hwn yn Gymraeg.


18.4 Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn llawer iawn mwy tebygol o geisio, a llwyddo, i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus neu wrth gwblhau ffurflenni swyddogol na'r rheini nad ydynt yn rhugl. Mae 78 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn ceisio (o leiaf weithiau) i ddefnyddio Cymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus (gyda 61 y cant ohonynt yn llwyddo fel arfer neu bob amser), ac mae 63 y cant ohonynt yn ceisio defnyddio'r Gymraeg i gwblhau ffurflenni swyddogol (gyda 57 y cant ohonynt yn llwyddo fel arfer neu bob amser).

18.5 O ran y rheini nad ydynt yn rhugl, mae 23 y cant yn ceisio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus (gyda 23 y cant o'r rheini yn llwyddo fel arfer neu bob amser), ac 11 y cant sydd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg i gwblhau ffurflenni swyddogol (gyda 25 y cant ohonynt yn llwyddo fel arfer neu bob amser).

18.6 Mae'r ymatebwyr sy'n ceisio defnyddio'r Gymraeg fwyaf aml gyda sefydliadau cyhoeddus ac wrth gwblhau ffurflenni hefyd yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus. Mae 84 y cant o ymatebwyr sydd bob amser yn ceisio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus yn llwyddiannus bob amser neu fel arfer, o'i gymharu â dim ond 23 y cant o bobl sydd ond weithiau'n ceisio defnyddio'r Gymraeg. Mae 85 y cant o ymatebwyr sydd bob amser yn ceisio defnyddio'r Gymraeg i lenwi ffurflenni yn llwyddiannus bob amser neu fel arfer, o'i gymharu â 26 y cant o'r bobl sydd ond weithiau'n ceisio defnyddio'r Gymraeg.

18.7 Mae'r gyfran o bobl sy'n ceisio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus neu wrth lenwi ffurflenni swyddogol yn cynyddu ychydig gydag oedran. Dangosir hyn yn Siart 28 isod. Nid oedd gwahaniaeth rhwng dynion a menywod.

**Siart 28: Cyfran yr oedolion sy'n siarad Cymraeg sy'n ceisio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus ac wrth gwblhau ffurflenni swyddogol yn ôl oedran**




18.8 Ar draws pob grŵp oedran, mae cyfran fwy o bobl yn ceisio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus na sydd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg i gwblhau ffurflenni swyddogol.

18.9 Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng y grwpiau oedran o ran llwyddiant siaradwyr Cymraeg sydd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliad cyhoeddus neu lenwi ffurflenni swyddogol.

## 19 Pa iaith y mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio?

19.1 Mae Arolwg 2013-14 wedi casglu gwybodaeth newydd am yr iaith y mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio.

**C14. Pa iaith ydych chi'n teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio?**

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Cymraeg ☐
- Saesneg ☐
- Yr un mor gartrefol yn y ddwy iaith ☐
- Arall ☐

Os ydych **dros 16 oed ac yn gweithio**, llenwch yr adran nesaf os gwelwch yn dda. Fel arall, diolch i chi am lenwi'r holiadur. A wnewch chi ei ddychwelyd yn yr amlen a ddaeth gyda'r holiadur os gwelwch yn dda.

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*


19.2 Mae ychydig o dan chwarter siaradwyr Cymraeg yn fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, gyda hanner yn fwyaf cartrefol yn defnyddio Saesneg, a chwarter yn dweud eu bod yr un mor gartrefol yn defnyddio'r ddwy iaith.

19.3 Mae'r gyfran o bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg yn hytrach na'r Saesneg yn cynyddu gydag oedran. Mae traean o siaradwyr Cymraeg 65 oed a throsodd yn fwyaf cartrefol yn defnyddio Cymraeg. Mae chwarter y dynion a atebodd yn fwyaf cartrefol yn defnyddio Cymraeg, o gymharu â phumed o fenywod.

19.4 Dywedodd 42 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl eu bod fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, a dywedodd 42 y cant arall eu bod yr un mor gartrefol yn defnyddio'r ddwy iaith. Roedd y cyfrannau'n llawer iawn llai ar gyfer pobl nad ydynt yn rhugl (gan gynnwys y rheini sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg).

19.5 Mae Siart 29 yn dangos sut y mae'r iaith y mae siaradwyr Cymraeg yn dweud eu bod fwyaf cartrefol yn ei defnyddio yn amrywio yn ôl rhuglder ac oedran. Mae'r siart yn dangos bod siaradwyr Cymraeg rhugl iau, 16 i 29 oed, yn llai tebygol o fod fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg (30 y cant), o'u cymharu â phobl 65 oed a throsodd (51 y cant).


**Siart 29: Yr iaith y mae siaradwyr Cymraeg fwyaf cartrefol yn ei defnyddio, yn ôl oedran a rhuglder**




19.6 O'r bobl a ddywedodd eu bod fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, cwblhaodd 64 y cant holiadur yr arolwg hwn yn Gymraeg. O'r bobl a ddywedodd eu bod yr un mor gartrefol yn y ddwy iaith cwblhaodd 36 y cant ohonynt yr arolwg hwn yn Gymraeg.

## 20 Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith

20.1 Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i oedolion sy'n gweithio ynghylch i ba raddau y maent yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a sut y caiff yr iaith ei thrin a'i hystyried yno. Mae'r cwestiwn cyntaf yn yr adran hon yn gofyn a yw'r ymatebydd yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr neu bobl y tu allan i'w sefydliad, ac a yw'n ysgrifennu unrhyw beth yn Gymraeg yn y gwaith.



**C18. Pan fyddwch chi yn y gwaith ydych chi'n...**

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*


| | Ydw, bob amser | Ydw, fel arfer | Ydw, weithiau | Nac ydw | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| Siarad Cymraeg â chydweithwyr? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'r cwmni/sefydliad? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ysgrifennu rhywbeth yn Gymraeg? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*

20.2 Mae tua thraean o bobl sy’n gweithio sy’n gallu siarad Cymraeg yn siarad yr iaith gyda’u cydweithwyr bob amser (neu fel arfer), mae traean yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr weithiau, ac mae yna draean nad ydynt byth yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr. Noder nad yw’r cwestiwn hwn yn gwahaniaethu rhwng siarad gyda chydweithwyr am faterion penodol i’r swydd (‘iaith gwaith’) a siarad gyda chydweithwyr yn anffurfiol (‘iaith *yn* y gwaith’).

20.3 Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol na siaradwyr Cymraeg eraill i ddefnyddio Cymraeg gyda’u cydweithwyr yn y gwaith bob amser neu fel arfer. Yn ogystal, mae siaradwyr Cymraeg 45 oed a throsodd yn fwy tebygol na siaradwyr Cymraeg eraill i ddefnyddio Cymraeg gyda’u cydweithwyr yn y gwaith bob amser neu fel arfer. Dangosir hyn yn Siart 30.

**Siart 30: Y cyfrannau sy’n siarad Cymraeg gyda’u cydweithwyr, yn ôl oedran a rhuglder**





20.4 Mae ymatebwyr nad ydynt yn rhugl yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn siarad Cymraeg ‘weithiau’. Hefyd, mae siaradwyr Cymraeg hŷn nad ydynt yn rhugl yn fwy tebygol o siarad peth Cymraeg na siaradwyr Cymraeg iau nad ydynt yn rhugl. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng dynion a menywod o ran siarad Cymraeg â chydweithwyr.

20.5 Ychydig o wahaniaeth sydd rhwng atebion pobl sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Yn y ddau sector, mae tua thraean yn siarad Cymraeg gyda'u cydweithwyr bob amser neu fel arfer. Mae gweithwyr mewn sefydliadau llai o faint yn fwy tebygol na gweithwyr mewn sefydliadau mwy o faint o siarad Cymraeg gyda'u cydweithwyr.

20.6 Mae chwarter y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'w sefydliad bob amser (neu fel arfer), mae 4 o bob 10 weithiau'n gwneud hynny, ac mae yna draean nad ydynt byth yn gwneud hynny.

20.7 Unwaith eto, mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'w sefydliad na phobl nad ydynt yn rhugl. Mae pobl 45 oed a throsodd ychydig yn fwy tebygol na siaradwyr Cymraeg eraill o ddefnyddio Cymraeg bob amser neu fel arfer gyda phobl tu allan i'w sefydliad. Dangosir hyn yn Siart 31 isod.

**Siart 31: Y cyfrannau sy'n siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'w sefydliad, yn ôl oedran a rhuglder**




20.8 Mae dynion ychydig yn fwy tebygol na menywod o ddefnyddio Cymraeg gyda phobl y tu allan i'w sefydliad.


20.9 Ychydig o wahaniaeth sydd rhwng atebion pobl sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Yn y ddau sector, mae tua chwarter yn defnyddio Cymraeg bob amser neu fel arfer gyda phobl y tu allan i'w sefydliad.

20.10 Mae tua hanner siaradwyr Cymraeg yn ysgrifennu yn Gymraeg yn eu gwaith ac mae hanner nad ydynt yn gwneud hynny. Mae siaradwyr Cymraeg rhugl, unwaith eto, hefyd yn llawer mwy tebygol o ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith na rheini nad ydynt yn rhugl.

20.11 Ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y grwpiau oedran o ran ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith. Fodd bynnag, mae menywod ychydig yn fwy tebygol na dynion i ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith.

20.12 Mae siaradwyr Cymraeg a ddywedodd y gallant ysgrifennu'n 'dda' neu'n 'dda iawn' yn Gymraeg yn fwy tebygol o ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith na'r rhai a ddywedodd na allant ysgrifennu Cymraeg yn dda. Mae 54 y cant o'r bobl a ddywedodd y gallant ysgrifennu Cymraeg yn 'dda iawn' yn ysgrifennu'r iaith yn y gwaith bob amser neu fel arfer.

**Siart 32: Y cyfrannau sy'n ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith, yn ôl eu gallu ysgrifennu a'u hoedran**



20.13 Mae gweithwyr yn y sector cyhoeddus ddwywaith yn fwy tebygol o ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith na gweithwyr yn y sector preifat.

20.14 Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd eu cyflogwr wedi cynnig unrhyw beth iddynt i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn y gwaith.

**C19. Ydy'ch cyflogwr wedi cynnig rhywbeth i chi i'w wisgo i ddangos eich bod yn gallu siarad Cymraeg** *(e.e. Bathodyn 'Cymraeg')***?**

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Ydy ☐
- Nac ydy ☐
- Ddim yn gwybod ☐

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*


20.15 O ran siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio, mae 1 o bob 5 wedi cael cynnig rhywbeth, megis bathodyn, gan eu cyflogwyr i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

20.16 Mae 24 y cant o weithwyr sy'n siarad Cymraeg yn y grŵp oedran 30 i 64 wedi cael cynnig rhywbeth i'w wisgo i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg; mae hyn yn gyfran uwch nag yn y grwpiau oedran iau (13 y cant) a hŷn (16 y cant).


20.17 O'u cymharu â gweithwyr nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg, mae gweithwyr sy'n rhugl neu sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi cael cynnig rhywbeth gan eu cyflogwr i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

20.18 Mae 30 y cant o weithwyr sy'n siarad Cymraeg yn y sector cyhoeddus wedi cael cynnig rhywbeth, megis bathodyn, gan eu cyflogwr i ddangos eu bod yn gallu siarad yr iaith. Mae hyn yn cymharu â 10 y cant yn y sector preifat. Mae gweithwyr mewn sefydliadau mwy o faint yn llawer iawn mwy tebygol o fod wedi cael cynnig rhywbeth, megis bathodyn, i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg. Dangosir hyn yn Siart 33.

**Siart 33: Y cyfrannau y cynigiwyd iddynt rywbeth i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl maint y sefydliad, sector cyflogaeth, a rhuglder**




20.19 Gofynnwyd i ymatebwyr p'un a yw sgiliau iaith Gymraeg wedi eu nodi yn eu disgrifiad swydd ai peidio.



**C20. A oes sgiliau yn y Gymraeg wedi cael eu nodi yn eich disgrifiad swydd?**

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Does gen i ddim disgrifiad swydd ☐
- Oes - yn hanfodol ☐
- Oes - yn ddymunol ☐
- Nac oes ☐
- Ddim yn gwybod ☐


*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*

20.20 O'r siaradwyr Cymraeg a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd 9 y cant nad oeddent yn gwybod a dywedodd 11 y cant nad oedd ganddynt ddisgrifiad swydd. O'r rheini oedd â disgrifiad swydd, dywedodd 15 y cant bod y disgrifiad yn nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol a dywedodd 27 y cant bod y disgrifiad yn nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol. I 57 y cant o'r bobl a ddywedodd bod ganddynt ddisgrifiad swydd, ni nodwyd sgiliau iaith Gymraeg o gwbl.

20.21 Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng y gwahanol grwpiau oedran o ran p'un a yw disgrifiadau swydd yn cynnwys y Gymraeg ai peidio. Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o fod â sgiliau iaith Gymraeg wedi'u nodi'n hanfodol neu'n ddymunol yn eu disgrifiad swydd (56 y cant o'r rheini a ddywedodd fod ganddynt ddisgrifiad

swydd) o'u cymharu â siaradwyr nad ydynt yn rhugl (31 y cant o'r rheini a ddywedodd fod ganddynt ddisgrifiad swydd). Dangosir hyn yn Siart 34 isod.

**Siart 34: Cyfran disgrifiadau swydd siaradwyr Cymraeg sydd â sgiliau iaith Gymraeg wedi'u nodi ynddynt, yn ôl maint y sefydliad, sector cyflogaeth, a rhugldder**




20.22 Dywedodd 60 y cant o bobl sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus y mae ganddynt ddisgrifiad swydd ei fod yn nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Mae hyn o'i gymharu â 18 y cant yn y sector preifat. Hefyd, mae'n fwy tebygol fod sgiliau iaith Cymraeg wedi'u nodi yn nisgrifiadau swyddi pobl sy'n gweithio i sefydliadau mwy o faint.

20.23 Mae gan 72 y cant o'r siaradwyr Cymraeg a ddywedodd eu bod wedi cael cynnig rhywbeth gan eu cyflogwr i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg ddisgrifiad swydd sy'n nodi sgiliau iaith Gymraeg. Mae gan 36 y cant o'r rheini nad ydynt wedi cael cynnig rhywbeth gan eu cyflogwr i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg ddisgrifiad swydd sy'n nodi sgiliau iaith Gymraeg.

20.24 Mae gan 67 y cant o'r rheini a ddywedodd eu bod yn ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith ddisgrifiad swydd sy'n nodi bod y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol.

unrhyw beth yn Gymraeg yn y gwaith.

Mae hyn yn cymharu â 23 y cant o'r rheini a ddywedodd nad ydynt yn ysgrifennu unrhyw beth yn Gymraeg yn y gwaith.

20.25 Mae gan 57 y cant o'r rheini a ddywedodd eu bod yn siarad â phobl o'r tu allan i'w sefydliad yn Gymraeg ddisgrifiad swydd sy'n nodi bod y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Mae hyn yn cymharu â 21 y cant o'r rheini a ddywedodd nad ydynt yn siarad â phobl o'r tu allan i'w sefydliad yn Gymraeg.[7]

20.26 O'r rheini a ddywedodd bod sgiliau iaith Gymraeg wedi'u nodi'n hanfodol neu'n ddymunol yn eu disgrifiad swydd, mae 85 y cant yn siarad Cymraeg â'u cydweithwyr, 81 y cant yn siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'w sefydliad a 71 y cant yn ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith.

20.27 Roedd y cwestiwn olaf ynghylch Cymraeg yn y gweithle yn gofyn am farn yr ymatebwyr ynghylch agwedd eu cyflogwr tuag at yr iaith Gymraeg.

**C21. Pa un o'r datganiadau hyn, yn eich tyb chi, sy'n disgrifio eich cyflogwr orau?**

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig - Cofiwch, bydd eich atebion yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol*

- Yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes, yn ffurfiol ac yn anffurfiol ☐
- Yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ond nid mewn materion busnes ffurfiol ☐
- Ddim yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg ☐
- Dim un o'r rhain ☐
- Ddim yn gwybod ☐

*Arolwg Defnydd Iaith Oedolion 2013-14*


20.28 O'r siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio, dywedodd 49 y cant fod eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o Gymraeg mewn agweddau ffurfiol ac anffurfiol ar y busnes. Dywedodd 19 y cant fod eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o Gymraeg yn anffurfiol ond nid o ran materion busnes ffurfiol. Dywedodd 6 y cant nad oedd eu cyflogwr yn gefnogol o'r defnydd o Gymraeg. Dywedodd 11 y cant nad oedd yr un o'r datganiadau'n disgrifio agwedd eu cyflogwr, a dywedodd 15 y cant nad oedden nhw'n gwybod.

[7] Am wybodaeth bellach am anghenion cyflogwyr o ran sgiliau Iaith Gymraeg gweler http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-language-skills-needs-eight-sectors/?lang=cy

20.29 Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng y grwpiau oedran o ran yr agweddau a nodwyd tuag at yr iaith Gymraeg ymhlith cyflogwyr siaradwyr Cymraeg. Mae’r gefnogaeth i’r iaith Gymraeg ymhlith cyflogwyr yn cynyddu ychydig yn ôl rhuglder y gweithwyr. Mae 65 y cant o weithwyr sy’n rhugl yn y Gymraeg o’r farn fod eu cyflogwr yn gefnogol o’r defnydd o’r Gymraeg mewn agweddau ffurfiol ac anffurfiol ar y busnes ac mae 20 y cant ohonynt o’r farn fod eu cyflogwr yn gefnogol o’r defnydd o’r Gymraeg mewn agweddau anffurfiol, ond nid o ran materion busnes ffurfiol. Mae hyn yn cymharu â 50 y cant a 26 y cant, yn ôl eu trefn, o ran pobl nad ydynt yn rhugl.

20.30 Mae cyflogwyr y sector cyhoeddus ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn gefnogol o’r defnydd o Gymraeg mewn busnes na chyflogwyr y sector preifat; dywedodd 11 y cant o ymatebwyr sy’n gweithio yn y sector preifat nad yw eu cyflogwr yn gefnogol i’r iaith Gymraeg; mae hyn yn cymharu â 3 y cant yn y sector cyhoeddus. Dangosir hyn yn Siart 35 isod.

**Siart 35: Barn am agwedd cyflogwyr tuag at yr iaith Gymraeg, yn ôl maint y sefydliad, sector cyflogaeth a gweithredoedd y cyflogwyr**




20.31 Dywedodd 65 y cant o ymatebwyr sy’n gweithio i sefydliad mwy o faint fod eu cyflogwr yn gefnogol i’r defnydd o Gymraeg mewn agweddau ffurfiol ac anffurfiol ar y

busnes. Mae hyn yn cymharu â 48 y cant o bobl sy’n gweithio i sefydliadau llai o faint.

20.32 Pan fo cyflogwyr wedi cynnig rhywbeth, megis bathodyn, i’w gweithwyr i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg, dywedodd 98 y cant o ymatebwyr fod eu cyflogwr yn gefnogol i’r defnydd o Gymraeg (82 y cant mewn agweddau ffurfiol ac anffurfiol ar y busnes, 16 y cant mewn agweddau anffurfiol ond nid mewn materion busnes ffurfiol). Mae hyn yn cymharu â 76 y cant o ran y bobl hynny nad oedd eu cyflogwr wedi cynnig unrhywbeth iddynt i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg (51 y cant mewn agweddau ffurfiol ac anffurfiol ar y busnes, 24 y cant mewn agweddau anffurfiol ond nid mewn materion busnes ffurfiol).

## Atodiad - Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Cefndir

Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-2015 yn barhad o ymchwil a wnaed yn wreiddiol ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2004 a 2006 i'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Fe'i comisiynwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i'w gynnal fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan TNS-BMRB a Beaufort Research ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a nodir yma yn seiliedig ar y sampl o gyfeiriadau a roddwyd i gyfwelwyr rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014.

Ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, dewiswyd ychydig dros 24,000 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol. Ymwelodd cyfwelwyr â phob cyfeiriad, dewiswyd un oedolyn (16+ oed) ar hap yn yr aelwyd a chynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb 25 munud o hyd gydag ef. Cwblhawyd cyfanswm o 14,771o gyfweliadau. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 70 y cant.

Rhoddwyd holiadur i ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer pob siaradwr Cymraeg yn yr aelwyd iddynt gael ei lenwi eu hunain. Yn arolwg 2013-14, nodwyd 33,422 o aelodau unigol o aelwydydd, pennwyd 8,190 o siaradwyr Cymraeg a dychwelodd 3,848 ohonynt holiadur wedi'i gwblhau.

Mae'r tabl isod yn dangos y gyfradd dderbyn, y gyfradd ddychwelyd a'r gyfradd ymateb ar gyfer holiadur yr oedolion a holiadur y plant.

**Cyfraddau derbyn, dychwelyd ac ymateb cyffredinol 2013-14 (ac eithrio ymatebwyr anghymwys)**

| | Cymwys | Derbyn | Dychwelyd | Cyfradd dderbyn | Cyfradd ddychwelyd | Cyfradd ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedolion** | 6,017 | 4,858 | 3,030 | 81% | 62% | 50% |
| **Plant** | 2,173 | 1,752 | 818 | 81% | 47% | 38% |
| **CYFANSWM** | 8,190 | 6,610 | 3,848 | 81% | 58% | 47% |

Dyma’r diffiniadau a ddefnyddiwyd:
**Y Gyfradd Dderbyn**: cyfran yr unigolion cymwys a dderbyniodd holiadur;
**Y Gyfradd Ddychwelyd**: cyfran yr holiaduron a dderbyniwyd a gwblhawyd ac a ddychwelwyd;
**Y Gyfradd Ymateb**: cyfran yr unigolion cymwys a gwblhaodd ac a ddychwelodd holiadur (cyfartal â’r gyfradd dderbyn wedi ei lluosi â’r gyfradd ddychwelyd).

Oherwydd y ffordd y pennwyd pobl i gymryd rhan yn yr arolwg, darperir gwybodaeth am siaradwyr Cymraeg yn yr aelwyd gan yr ymatebydd ar ran aelodau eraill yr aelwyd. O ganlyniad, mae'n bosibl i holiadur gael ei roi i unigolion nad ydynt yn ystyried eu hunain i fod yn siaradwyr Cymraeg.

Er mwyn gwneud yn iawn am yr anghysondeb posibl hwn, cafodd cwestiwn ei gynnwys ar ddechrau'r holiadur yn gofyn i bob ymatebydd Arolwg Defnydd Iaith a yw'n gallu siarad Cymraeg. Gofynnwyd i unrhyw un a atebodd gan ddweud nad oedd yn siarad Cymraeg ddychwelyd yr holiadur heb ateb unrhyw gwestiynau eraill, er mwyn nodi nad oeddent mewn gwirionedd yn gymwys ar gyfer yr Arolwg Defnydd Iaith. Nododd 251 o ymatebwyr nad oeddent, mewn gwirionedd, yn siarad Cymraeg, ac felly ni wnaethant gymryd rhan yn yr arolwg. Mae’r rhain wedi eu tynnu allan o’r tabl uchod.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y cynhaliwyd yr Arolwg Defnydd Iaith, gweler yr adroddiad technegol ar ei gyfer.

Am ragor o wybodaeth ynghylch Arolwg Cenedlaethol Cymru a sut y’i cynhaliwyd, gweler dudalennau gwe yr Arolwg Cenedlaethol neu adroddiad technegol yr Arolwg Cenedlaethol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am arolygon 2004-06 a’u canlyniadau yn yr adroddiad ar Arolygon Defnydd Iaith 2004-06.

**Dehongli'r canlyniadau**

Mae'r canrannau a nodir yn y datganiad hwn ond yn seiliedig ar yr ymatebwyr hynny a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol. Mae atebion coll yn broblem gyffredin gyda holiaduron a lenwir gan yr ymatebwyr eu hunain a gall hyn ddigwydd am sawl rheswm,

gan gynnwys pobl yn gwrthod neu fethu ateb cwestiwn penodol ac achosion pan nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i'r ymatebydd.

Lle nodwyd cysylltiad rhwng dau ffactor, nid yw hyn o anghenraid yn golygu bod un yn achosi'r llall. Bydd angen dadansoddi'n fanylach i benderfynu ar hyn.

Caiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu pwysoli i unioni'r tebygolrwydd o ddethol mewn modd anghyfartal a diffyg ateb gwahaniaethol (h.y. i sicrhau bod dosbarthiad oedran a rhyw y set ddata derfynol yn cyfateb i boblogaeth Cymru fel y'i pennwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol).

Mae rhai atebion i'r Arolwg Defnydd Iaith yn oddrychol o'u hanfod. O ddau berson â'r union yr un sgiliau iaith Gymraeg, gallai un ystyried ei hun yn rhugl a gallai'r llall feddwl mai dim ond tipyn o Gymraeg y mae'n gallu ei siarad. Wrth ddehongli'r canlyniadau, dylid cadw'r cyfyngiadau hyn mewn cof. Yn benodol, ni ddylid ystyried bod gwahaniaethau bychan a welir yn y data yn fwy arwyddocaol nag yr ydynt.

**Adroddiad Ansawdd**

Mae Adroddiad Ansawdd cryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach ar ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddir i lunio'r canlyniadau.

**Amrywioldeb samplu**

Mae amcangyfrifon o'r Arolwg Defnydd Iaith yn agored i rywfaint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geir pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu. Gellir defnyddio cyfyngau hyder i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu.

Mae'r canlyniadau a drafodir yn yr adroddiad hwn, yn ogystal â chanlyniadau eraill yr arolwg, yn cael eu cyflwyno mewn cyfres o dablau StatsCymru ynghyd â'u cyfyngau hyder o 95 y cant. Gellir cyfrifo cyfwng hyder o amgylch amcangyfrif arolwg ac mae'n rhoi amrediad sy'n debygol o gynnwys y gwerth gwirioneddol. Mewn 95 y cant o samplau arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95 y cant yn cynnwys y ffigur 'gwirioneddol' ar gyfer y

boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe byddai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan). Yn gyffredinol, po leiaf yw maint y sampl y mwyaf yw'r cyfwng hyder.

Gellir defnyddio cyfyngau hyder hefyd er mwyn helpu i ddweud a oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng dau grŵp. Fel canllaw bras i ddehongli, wrth gymharu dau grŵp, os yw'r cyfyngau hyder o amgylch yr amcangyfrifon yn gorgyffwrdd, gellir tybio nad yw'r amcangyfrifon yn arwyddocaol yn ystadegol - nid yw'r dull hwn mor drylwyr â chynnal prawf ystadegol ffurfiol, ond mae'n syml, fe'i defnyddir yn eang, ac mae'n gymharol gadarn. Cyfrifwyd y cyfyngau hyder o 95 y cant a ddangosir yn nhablau StatsCymru gan ddefnyddio pecyn ystadegau Stata. Addaswyd y cyfyngau hyn i ystyried dyluniad yr arolwg ac maent yn fwy nag y byddent pe bai'r arolwg yn seiliedig ar sampl syml a ddewiswyd ar hap.

Er mwyn sicrhau bod yr amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol a nodir yn y bwletin hwn yn gadarn, rydym hefyd wedi cyfrifo'r cyfernod amrywiad (CV) ar gyfer pob amcangyfrif. Cyfrifir y CV fel y cyfeiliornad safonol wedi'i luosi â 100 a'i rannu â'r cymedr. Nid ystyrir bod amcangyfrifon gyda CV o 20 neu fwy yn ddibynadwy at ddibenion ymarferol.

Rhoddwyd y codau lliw canlynol, yn ôl y CV, i'r canlyniadau a gyflwynir yn nhablau StatsCymru.

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r amcangyfrif yn gywir | $0 \le CV < 5$ |
| | Mae'r amcangyfrif yn eithaf cywir | $5 \le CV < 10$ |
| | Ystyrir bod yr amcangyfrif yn dderbyniol | $10 \le CV < 20$ |
| | Nid yw'r amcangyfrif yn ddibynadwy | $CV \ge 20$ |
| - | Amcangyfrif yn cael ei atal am fod llai na 30 o ymatebion | |

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn agored i amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau eraill: er enghraifft, oherwydd diffyg ateb; oherwydd efallai na fydd ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriedir iddynt wneud hynny neu'n ateb yn anghywir; ac oherwydd y gall cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael ei brosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornad yn gyfeiliornad nad yw'n gyfeiliornad samplu, ac fe'u trafodir yn yr Adroddiad Ansawdd.

### Gwahaniaethau arwyddocaol

Yn yr achosion hynny lle mae'r testun yn nodi nad yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol, rydym wedi sicrhau fod y cyfyngau hyder ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Os nad yw'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd, mae hyn yn awgrymu bod y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol (ond fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un ddau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Mae'n llai tebygol y bydd cadarnhau a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd yn arwain at gasgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau o gymharu â phrawf ystadegol ffurfiol. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan mae gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir **bod** gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal llawer o gymariaethau yn cynyddu'r siawns y ceir canlyniadau ffug. Felly, pan wneir cymariaethau, mae natur geidwadol y prawf yn fantais gan ei fod yn lleihau'r siawns hwn (ond nid yn ei ddileu).

### Adroddiad Technegol

Caiff gwybodaeth fanylach ar fethodoleg yr arolwg ei nodi yn Adroddiad Technegol yr arolwg.

### Diwygiadau

Mae gwybodaeth am ein polisi diwygio ar gael yma.

### Polisi rhyddhau

Ceir gwybodaeth am y broses o ryddhau canlyniadau newydd ar dudalennau gwe ystadegau Llywodraeth Cymru.

### Argaeledd setiau data

Gellir gweld y data sy'n sail i'r siartiau a'r tablau yn y datganiad hwn mewn cyfres o daenlenni pwnc benodol ar StatsCymru.

Caiff fersiwn anhysbys o'r set ddata flynyddol (y mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i dileu ohoni i sicrhau cyfrinachedd), ynghyd â dogfennau ategol, ei chadw yn Archif Ddata'r DU ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau hyn. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni (gweler y manylion cyswllt y tu mewn i'r clawr).

**Defnydd pellach o'r canlyniadau**

Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio gan dimau polisi Llywodraeth Cymru a chan Gomisiynydd y Gymraeg i helpu gyda'r gwaith o fonitro'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Mae'r canlyniadau hefyd yn berthnasol i'r holl sefydliadau a'r unigolion eraill sydd â diddordeb mewn cael gwell dealltwriaeth o batrymau defnydd iaith ar draws Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau ac asiantaethau sydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, y sector addysg, ac ystod eang o sefydliadau sy'n cyfrannu at y gwaith o hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Bydd y canlyniadau hefyd o ddiddordeb i rwydwaith cyfathrebwyr y Gwasanaethau Cyhoeddus, CommsCymru, ac i academyddion.

**Adborth neu wybodaeth bellach**

Os oes gennych adborth yr hoffech ei roi am yr adroddiad hwn, neu os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni ar 029 2082 6685 neu drwy e-bostio: arolygon@cymru.gsi.gov.uk.

Rydym yn croesawu sylwadau am ein cyhoeddiadau, er enghraifft ar eu cynnwys a'u diwyg.

## Holiaduron

Mae copi o'r holiadur oedolion a'r holiadur pobl ifanc i'w cael ar y tudalennau nesaf.

TNS BMRB

beaufortresearch

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SAMPL

# Arolwg Cenedlaethol Cymru - Arolwg Defnydd Iaith 2013-14

HOLIADUR AR GYFER OEDOLION OED 16+

**Y cyfwelydd i lenwi:**

RHIF CYFEIRNOD ☐☐☐☐☐☐ RHIF PERSON ☐☐

YR HOLIADUR I'W LENWI GAN ____________________

Mae'r holiadur hwn yn trafod yr iaith Gymraeg. Rydym am gael gwybod a ydych chi'n gallu siarad Cymraeg a'r mathau o sefyllfaoedd lle byddwch yn defnyddio'r Gymraeg. Bydd eich holl atebion yn cael eu trin yn gyfrinachol. Bydd eich atebion yn cael eu gwneud yn ddienw fel na fydd neb yn gwybod bod y wybodaeth yn cyfeirio atoch chi, cyn eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg a fydd yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am yr arolwg hwn, gallwch gysylltu â'r tîm Arolwg Cenedlaethol ar 029 2082 6685 neu anfon neges e-bost at arolygon@cymru.gsi.gov.uk**

Gobeithiaf yn fawr y gallwch gyfrannu. Dychwelwch eich holiadur yn yr amlen barod a ddarperir, neu ei ddanfon i'r cyfeiriad ar ddiwedd yr holiadur.

Diolch yn fawr i chi ymlaen llaw am eich cymorth.

Yn gywir,

Steven Marshall
*Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru*

## AWGRYMIADAU DEFNYDDIOL AR GYFER LLENWI'R HOLIADUR HWN

- Y person a enwir ar y dudalen yma ddylai lenwi'r holiadur.
- Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus a rhowch groes mewn blwch i nodi eich ateb. [X]
- Dim ond un blwch y bydd yn rhaid i chi roi croes ynddo fel arfer ond darllenwch y cwestiynau'n ofalus gan y bydd angen i chi roi croes mewn fwy nag un blwch gyda rhai cwestiynau.
- Os byddwch yn rhoi croes yn y blwch anghywir neu yn newid eich meddwl, llenwch y blwch yn gyfan gwbl fel hyn [■] ac yna rhowch groes yn y blwch ateb cywir.
- Defnyddiwch **inc du YN UNIG**.
- Atebwch y cwestiwn nesaf os nad yw'n dweud yn wahanol.
- Ar ôl i chi orffen, treuliwch ryw funud neu ddau yn sicrhau eich bod wedi ateb pob cwestiwn y dylech fod wedi'i ateb.
- Mae 5 tudalen i'r arolwg ac ni ddylai gymryd mwy na 10 munud i chi ei gwblhau.

## ADRAN 1: Sgiliau Iaith Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg

### C1. A allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

*Rhowch groes ym mhob blwch perthnasol*

- Deall Cymraeg llafar ☐
- Siarad Cymraeg ☐
- Darllen Cymraeg ☐
- Ysgrifennu Cymraeg ☐
- Dim un o'r uchod ☐

Os **NAD** ydych wedi rhoi croes yn y blwch 'Siarad Cymraeg' does dim rhagor o gwestiynau i'w hateb. Diolch i chi am gyfrannu. Dychwelwch yr holiadur yn yr amlen a ddaeth gyda'r holiadur os gwelwch yn dda. Os ydych yn **GALLU** 'Siarad Cymraeg', ewch i C2.

### C2. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich gallu i siarad Cymraeg?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Rwy'n rhugl yn Gymraeg ☐
- Rwy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg ☐
- Rwy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg yn unig ☐
- Rwy'n gallu dweud ychydig eiriau yn unig ☐

### C3. Ble yn bennaf dysgoch chi siarad Cymraeg?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Gartref, fel plentyn ifanc ☐
- Yn yr ysgol feithrin (3-4 oed) ☐
- Yn yr ysgol gynradd (5-10 oed) ☐
- Yn yr ysgol uwchradd (11 oed a throsodd) ☐
- Yn y coleg neu'r brifysgol (amser-llawn) ☐
- Rhywle arall, gan gynnwys ar gwrs Cymraeg i Oedolion ☐
  *Rhowch groes yn y blwch a rhowch fanylion isod*

_______________________________________________

### C4. Pa mor dda oedd eich rhieni yn gallu siarad Cymraeg pan oeddech chi'n blentyn?

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Cymraeg Rhugl | Eithaf Rhugl | Rhywfaint o Gymraeg | Dim Cymraeg | Ddim yn gwybod | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tad | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mam | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

SAMPL

## C5. Pa iaith ydych chi'n ei siarad yn bennaf yn y sefyllfaoedd canlynol...

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gartref? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn yr ysgol, coleg neu brifysgol? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gyda'ch ffrindiau? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gyda'ch cymydog agosaf? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ar gyfer gweithgareddau bob dydd fel siopa neu fynd ar y bws? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## C6. Gan feddwl am y sgwrs ddiweddaraf a gawsoch chi gyda rhywun nad yw'n perthyn i'ch teulu, pa iaith wnaethoch chi ei siarad?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Cymraeg ☐
- Saesneg ☐
- Arall ☐
  *Rhowch groes yn y blwch a rhowch fanylion isod*

## C7. Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Bob dydd ☐
- Bob wythnos ☐
- Llai aml ☐
- Byth ☐

## C8. Pa mor dda ydych chi'n gallu ysgrifennu Cymraeg?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Yn dda iawn ☐
- Yn dda ☐
- Ddim yn dda ☐
- Dim o gwbl ☐

SAMPL

## C9. Pa iaith ydych chi'n ei defnyddio fel arfer i...

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anfon neges destun o ffôn symudol at ffrind? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Anfon e-bost at ffrind? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ysgrifennu ar Facebook? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ysgrifennu ar Twitter? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## C10. Beth oedd iaith eich addysg ar bob un o'r camau canlynol...

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Cymraeg yn unig | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Saesneg yn unig | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn yr ysgol feithrin? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn yr ysgol gynradd? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn yr ysgol uwchradd? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## C11. Ydych chi'n ceisio defnyddio'r Gymraeg...

*(e.e. drwy chwilio am, drwy ddewis neu drwy ofyn am opsiwn Cymraeg)*

*Rhowch groes mewn blwch ym mhob rhes*

| | Ydw, bob amser | Ydw, fel arfer | Ydw, weithiau | Nac ydw | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| Wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus? *(e.e. eich cyngor sir)* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| I lenwi ffurflenni swyddogol? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Os ydych wedi dewis '**Nac ydw**' neu '**Amherthnasol**' ar gyfer y ddau opsiwn yn C11 ewch yn syth i **C13**.

## C12. Pa mor aml ydych chi'n llwyddo i ddefnyddio'r Gymraeg...

*(e.e. llwyddo i siarad â rhywun yn Gymraeg, neu i gael deunyddiau yn Gymraeg)*

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Bob amser/ bron bob amser | Fel arfer | Weithiau | Byth | Amherthnasol/ Erioed wedi ceisio |
|---|---|---|---|---|---|
| Wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus? *(e.e. eich cyngor sir)* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| I lenwi ffurflenni swyddogol? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

SAMPL

## C13. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, aethoch chi i ddigwyddiad neu weithgaredd...

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Do | Naddo | Ddim yn gwybod/ Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| **gymdeithasol neu ddiwylliannol** wedi ei gynnal yn Gymraeg? *(e.e. cyngerdd, eisteddfod, gig, côr neu gymdeithas)* | ☐ | ☐ | ☐ |
| **chwaraeon** wedi ei gynnal yn Gymraeg? *(e.e. clwb chwaraeon, cymdeithas neu gwrs)* | ☐ | ☐ | ☐ |

## C14. Pa iaith ydych chi'n teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Cymraeg ☐
- Saesneg ☐
- Yr un mor gartrefol yn y ddwy iaith ☐
- Arall ☐

Os ydych **dros 16 oed ac yn gweithio**, llenwch yr adran nesaf os gwelwch yn dda. Fel arall, diolch i chi am lenwi'r holiadur. A wnewch chi ei ddychwelyd yn yr amlen a ddaeth gyda'r holiadur os gwelwch yn dda.

# ADRAN 2: Y Gymraeg yn y gwaith

## C15. Sawl person sy'n gweithio i'ch cyflogwr yn y man lle rydych chi'n gweithio?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig - Os nad ydych yn siwr, rhowch amcangyfrif o'r dewisiadau isod*

| 1 - 10 | 11 - 49 | 50 - 249 | 250+ | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## C16. Beth yw cyfanswm nifer y gweithwyr sy'n gweithio i'ch cyflogwr, gan gynnwys lleoliadau a changhennau eraill?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig - Os nad ydych yn siwr, rhowch amcangyfrif o'r dewisiadau isod*

| 1 - 10 | 11 - 49 | 50 - 249 | 250+ | Ddim yn gwybod | Dim lleoliadau/canghennau eraill |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## C17. Ym mha sector ydych chi'n gweithio?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

| Preifat | Gwirfoddol/y trydydd sector | Cyhoeddus | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

SAMPL

## C18. Pan fyddwch chi yn y gwaith ydych chi'n...

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Ydw, bob amser | Ydw, fel arfer | Ydw, weithiau | Nac ydw | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| Siarad Cymraeg â chydweithwyr? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'r cwmni/sefydliad? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ysgrifennu rhywbeth yn Gymraeg? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## C19. Ydy'ch cyflogwr wedi cynnig rhywbeth i chi i'w wisgo i ddangos eich bod yn gallu siarad Cymraeg *(e.e. Bathodyn 'Cymraeg')*?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Ydy ☐
- Nac ydy ☐
- Ddim yn gwybod ☐

## C20. A oes sgiliau yn y Gymraeg wedi cael eu nodi yn eich disgrifiad swydd?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

- Does gen i ddim disgrifiad swydd ☐
- Oes - yn hanfodol ☐
- Oes - yn ddymunol ☐
- Nac oes ☐
- Ddim yn gwybod ☐

## C21. Pa un o'r datganiadau hyn, yn eich tyb chi, sy'n disgrifio eich cyflogwr orau?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig - Cofiwch, bydd eich atebion yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol*

- Yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes, yn ffurfiol ac yn anffurfiol ☐
- Yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ond nid mewn materion busnes ffurfiol ☐
- Ddim yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg ☐
- Dim un o'r rhain ☐
- Ddim yn gwybod ☐

Diolch i chi am lenwi'r holiadur hwn.

**A wnewch chi ei ddychwelyd yn yr amlen a ddaeth gyda'r holiadur.**

Os ydych wedi colli'r amlen, neu os nad ydych wedi'i derbyn, anfonwch yr holiadur at

**Freepost RRZG-HCJK-LTSE**
**TNS**
**Olympus Avenue**
**Tachbrook Park**
**Warwick**
**CV34 6RJ**

SAMPLE

TNS BMRB

beaufortresearch

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SAMPLE

# Arolwg Cenedlaethol Cymru - Arolwg Defnydd Iaith 2013-14

HOLIADUR PERSON IFANC (POBL IFANC 3 – 15 OED)

**Y cyfwelydd i lenwi:**

RHIF CYFEIRNOD: ☐☐☐☐☐☐ RHIF PERSON: ☐☐

YR HOLIADUR I'W LENWI GAN RIANT/GWARCHEIDWAD AM ____________


Mae'r holiadur hwn yn trafod yr iaith Gymraeg. Rydym am gael gwybod a ydych chi'n gallu siarad Cymraeg a'r mathau o sefyllfaoedd lle byddwch yn defnyddio'r Gymraeg. Bydd eich holl atebion yn cael eu trin yn gyfrinachol. Bydd eich atebion yn cael eu gwneud yn ddienw fel na fydd neb yn gwybod bod y wybodaeth yn cyfeirio atoch chi, cyn eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg a fydd yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am yr arolwg hwn, gallwch gysylltu â'r tîm Arolwg Cenedlaethol ar 029 2082 6685 neu anfon neges e-bost at arolygon@cymru.gsi.gov.uk**

Gobeithiaf yn fawr y gallwch gyfrannu. Dychwelwch eich holiadur yn yr amlen barod a ddarperir, neu ei ddanfon i'r cyfeiriad ar ddiwedd yr holiadur.

Diolch yn fawr i chi ymlaen llaw am eich cymorth.

Yn gywir,



Steven Marshall
*Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru*

## AWGRYMIADAU DEFNYDDIOL AR GYFER LLENWI'R HOLIADUR HWN

- Rhiant/gwarcheidwad y plentyn a enwir ar y dudalen yma ddylai lenwi'r holiadur yma. Neu, os yw'r plentyn dros 12 oed, caiff y plentyn ei hun ei lenwi, os yw'n well gan y rhiant/gwarcheidwad a'r plentyn, ond rhaid i'r **rhiant arwyddo'r cydsyniad ar ddiwedd yr holiadur**.
- Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus a rhowch groes mewn blwch i nodi eich ateb. [X]
- Dim ond un blwch y bydd yn rhaid i chi roi croes ynddo fel arfer ond darllenwch y cwestiynau'n ofalus gan y bydd angen i chi roi croes mewn mwy nag un blwch gyda rhai cwestiynau.
- Os byddwch yn rhoi croes yn y blwch anghywir neu yn newid eich meddwl, llenwch y blwch yn gyfan gwbl fel hyn [■] ac yna rhowch groes yn y blwch ateb cywir.
- Defnyddiwch **inc du YN UNIG**.
- Atebwch y cwestiwn nesaf os nad yw'n dweud yn wahanol.
- Ar ôl i chi orffen, treuliwch ryw funud neu ddau yn sicrhau eich bod wedi ateb pob cwestiwn y dylech fod wedi'i ateb.
- Mae 3 tudalen i'r arolwg ac ni ddylai gymryd mwy na 5 munud i chi ei gwblhau.

## C1. Ydy'ch plentyn yn gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

*Rhowch groes ym mhob un sy'n berthnasol*

| Deall Cymraeg llafar | Siarad Cymraeg | Darllen Cymraeg | Ysgrifennu Cymraeg | Dim un o'r uchod |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Os **NAD** ydych wedi rhoi croes yn y blwch 'Siarad Cymraeg' does dim mwy o gwestiynau i'w hateb. Diolch i chi am gyfrannu. Dychwelwch yr holiadur yn yr amlen a ddarparwyd. Os yw'ch plentyn yn **GALLU** 'Siarad Cymraeg', ewch i C2.

## C2. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio gallu'ch plentyn i siarad Cymraeg?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

| Yn rhugl yn y Gymraeg | Gall siarad cryn dipyn o Gymraeg | Gall siarad ychydig o Gymraeg yn unig | Gall ddweud ychydig o eiriau yn unig |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## C3. Ble yn bennaf dysgodd eich plentyn siarad Cymraeg?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

| | |
|---|---|
| Gartref, fel plentyn ifanc | ☐ |
| Yn yr ysgol feithrin (3-4 oed) | ☐ |
| Yn yr ysgol gynradd (5-10 oed) | ☐ |
| Yn yr ysgol uwchradd (11 oed a throsodd) | ☐ |
| Rhywle arall *Rhowch groes yn y blwch a rhowch fanylion isod* | ☐ |

______________________________

## C4. Pa mor dda mae'r aelodau canlynol o'r teulu yn gallu siarad Cymraeg?

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Cymraeg Rhugl | Eithaf Rhugl | Rhywfaint o Gymraeg | Dim Cymraeg | Ddim yn gwybod | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tad y plentyn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mam y plentyn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Brawd (brodyr)/chwaer (chwiorydd) y plentyn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## C5. Pa iaith mae eich plentyn yn ei siarad yn bennaf yn y sefyllfaoedd canlynol...

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Bob amser/bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/bron bob amser yn Saesneg | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gartref? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn yr ysgol? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn siarad â ... | | | | | | | |
| Tad? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mam? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Nain/Mam-gu a Taid/Tad-cu? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ffrindiau? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

SAMPLE

## C6. Pa mor aml mae eich plentyn yn siarad Cymraeg?

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

| Bob dydd | Bob wythnos | Llai aml | Byth |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## C7. Pa ieithoedd mae eich plentyn yn eu defnyddio fel arfer i...

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anfon neges destun o ffôn symudol at ffrind? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Anfon e-bost at ffrind? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol *(e.e. Bebo, Facebook)*? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Atebwch gwestiwn 8 os yw eich plentyn yn yr ysgol uwchradd – fel arall ewch i gwestiwn 9.**

## C8. Ym mha iaith y dysgir y pynciau canlynol i'ch plentyn yn yr ysgol uwchradd?

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg | Cymraeg yn bennaf | Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal | Saesneg yn bennaf | Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mathemateg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwyddoniaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Daearyddiaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Celf a Dylunio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dylunio a Thechnoleg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Hanes | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Addysg Gorfforol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ieithoedd Modern | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cerddoriaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Drama | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C9. Yn y flwyddyn ddiwethaf, ydy'ch plentyn wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd yn Gymraeg na chafodd ei drefnu gan yr ysgol** *(e.e. wedi ei drefnu gan glwb chwaraeon cymunedol, Menter Iaith, yr Urdd)*...

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Ydy | Nac ydy | Ddim yn gwybod/ ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| digwyddiad neu weithgaredd **gymdeithasol neu ddiwylliannol** wedi ei gynnal yn Gymraeg *(e.e. cyngerdd, eisteddfod, gig, côr neu gymdeithas)*? | ☐ | ☐ | ☐ |
| digwyddiad neu weithgaredd **chwaraeon** wedi ei gynnal yn Gymraeg *(e.e. clwb chwaraeon, cymdeithas neu gwrs)*? | ☐ | ☐ | ☐ |

**C10. Yn y flwyddyn ddiwethaf, ydy'ch plentyn wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd yn Gymraeg a gafodd ei drefnu gan yr ysgol ond tu allan i oriau'r ysgol...**

*Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes*

| | Ydy | Nac ydy | Ddim yn gwybod/ ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| digwyddiad neu weithgaredd **gymdeithasol neu ddiwylliannol** wedi ei gynnal yn Gymraeg *(e.e. cyngerdd, eisteddfod, gig, côr neu gymdeithas)*? | ☐ | ☐ | ☐ |
| digwyddiad neu weithgaredd **chwaraeon** wedi ei gynnal yn Gymraeg *(e.e. clwb chwaraeon, cymdeithas neu gwrs)*? | ☐ | ☐ | ☐ |

**C11. Pwy lenwodd yr holiadur hwn?**

*Rhowch groes mewn un blwch yn unig*

Plentyn ☐

Rhiant/Gwarcheidwad ☐

Y rhiant i lofnodi yma os bydd y plentyn yn llenwi'r holiadur ________________

Diolch i chi am lenwi'r holiadur hwn.

**A wnewch chi ei ddychwelyd yn yr amlen a ddaeth gyda'r holiadur.**

Os ydych wedi colli'r amlen, neu os nad ydych wedi'i derbyn, anfonwch yr holiadur at

**Freepost RRZG-HCJK-LTSE**
**TNS**
**Olympus Avenue**
**Tachbrook Park**
**Warwick**
**CV34 6RJ**

SAMPL